# Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful 2015/2016 - Wedi'i adolygu ar gyfer 2015/2016

**Wedi'i ddiwygio a'i gymeradwyo gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful**
**1 Hydref 2015**

**Noder: I'w gyflwyno i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol neu gyfwerth i'w gymeradwyo**

Cynhyrchwyd ar ran Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful gan:

Tîm Partneriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC)

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

**Suzanne Davies**

**E-bost:**
suzanne.davies@merthyr.gov.uk

**Rhif ffôn:**
(01685) 725484

**Ann-Marie-McCafferty**

**E-bost:**
ann-marie.mccafferty@merthyr.gov.uk

**Rhif ffôn:**
(01685) 725466

**Maria Purnell**

**E-bost:**
maria.purnell@merthyr.gov.uk

**Rhif ffôn:**
(01685) 725227

**MYNEGAI**


| | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 5 |
| Cefndir | 6 7 |
| Ein Hanghenion | 8 |
| Y Broses Adolygu | 9 |
| Canlyniadau o’r cyfarfodydd 1 i 1 | 9 11 |
| Rheoli Perfformiad y Cynllun Integredig Sengl (SIP) 2014 15 | 12 |
| Prif Lwyddiannau ac Eithriadau ar gyfer 2014 2015 | 13 18 |
| Edrych ymlaen at 2015 2016 | 19 26 |
| Meysydd i'w Datblygu | 27 29 |
| Diweddariad Strategaeth Gwybodaeth | 30 |
| Diweddariad Craffu | 30 32 |
| Cynllun Datblygu Lleol | 32 33 |
| Atodiadau | 34 39 |
| Mynegai i’r Dolenni ar y We | 40 |
| Datganiad i Gloi | 41 |

## CYFLWYNIAD

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB) Merthyr Tudful, rydym yn falch o gyflwyno'r Cynllun Integredig Sengl (SIP) wedi'i ddiwygio ar gyfer 2015 16.

Mae LSB Merthyr Tudful yn dwyn uwch swyddogion ynghyd o Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Heddlu De Cymru; Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful; Llywodraeth Cymru a Chabinet Ieuenctid Merthyr Tudful, yn ogystal â chynrychiolwyr eraill o sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n cefnogi cyflwyno'r SIP.

Ers cyflwyno'r cynllun integredig sengl yn 2013 bu newidiadau i'r amgylchiadau y cawn ein hunain ynddyn nhw. Mae'n rhaid i gymunedau gan gynnwys holl bartneriaid yr LSB ymateb i'r mesurau caledi sydd yn berthnasol i ni gyd. Fel ni, mae'n dinasyddion a'n busnesau yn gorfod rheoli pwysau ychwanegol ar draws y bartneriaeth yn benodol; rydym wedi gorfod cyflwyno newidiadau gan gynnwys ailstrwythuro sefydliadol.

**Ni fu gweithio gyda'n gilydd yn bwysicach erioed**. Mae cydweithio yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gyflawni'r weledigaeth fel sydd wedi'i gosod yn yr SIP. Mae'r LSB yn ceisio cyflwyno camau llywodraethu effeithiol cynaliadwy, darparu prosesau gwneud penderfyniadau deinamig a pharhau i oruchwylio'n effeithiol. Gallwn weithio yn ddoethach, gan ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithiol er mwyn helpu i wella canlyniadau i'n holl ddinasyddion. Gall yr LSB hefyd gefnogi hyn drwy ail ystyried ac alinio'r SIP gyda strategaethau a chynlluniau eraill, gan sicrhau fod yr SIP yn cynnig yr amodau hanfodol i gynnal ac atgyfnerthu partneriaethau newydd a phartneriaethau sy'n bodoli'n barod.


Gan adlewyrchu ar ein profiadau hyd yma, gall yr LSB nodi lle mae angen iddo edrych ar ffyrdd y gallai wneud pethau'n wahanol. Gan newid ffocws y Cynllun, gallai ennyn eglurder o ran sut y gall partneriaid weithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y Fwrdeistref Sirol.

Ein man cychwyn oedd adolygiad trylwyr o sut y lluniwyd yr SIP gwreiddiol; y broses gyflawni; adrodd ar berfformiad; trefniadau partneriaeth ac ati. Galluogodd hyn yr LSB i nodi beth oedd yn gweithio ac i ddeall beth sydd angen ei ail ystyried. O ganlyniad, mae wedi ceisio atgyfnerthu trefniadau partneriaeth presennol a chyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae enghraifft o hyn yn digwydd wedi'i gynnwys yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ar Dudalen 10.


Mae'r LSB hefyd wedi bod yn canolbwyntio ar y dyfodol, a'r paratoadau yr ydym angen eu gwneud er mwyn sicrhau fod LSB Merthyr mewn sefyllfa i ymateb yn gadarnhaol i ofynion yn y dyfodol, er enghraifft Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015. Mae'r LSB wedi ceisio diogelu egwyddorion ategol y ddwy Ddeddf yn ein cynllun diwygiedig, er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried heddiw'r sialensiau cenedliadol y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol yng Nghymru mewn modd mwy cydgysylltiedig. Bydd rhoi'r Deddfau hyn ar waith yn cynnig cyfleoedd a sialensiau.

Mae ffocws eang y Cynllun wedi gosod heriau (e.e.) mae cydlynu gwybodaeth ar draws ystod eang o weithgareddau weithiau wedi bod yn fwy cymhleth na'r disgwyl; nid yw pob sefydliad yn casglu data/gwybodaeth yn yr un ffordd ac yn achlysurol mae hyn wedi arwain at oedi cyn i ddata cadarn fod ar gael.

Er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'r LSB yn ystyried yr effaith y gallant ei gael ar y bobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, bydd yr egwyddorion canlynol yn cael eu cydnabod yng ngwaith yr LSB:




**Tymor hir**
Pwysigrwydd cydbwyso yr anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i fodloni angen yn y tymor hir



**Atal**
Efallai y gallai atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu hamcanion



**Integreiddio**
Ystyried sut mae amcanion yr LSB yn effeithio ar eraill, ar amcanion y sefydliadau partner ac ati.



**Cydweithio**
Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion lles.




**Cynnwys**
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni nodau cyffredin a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff.

## CEFNDIR

Yn y gorffennol, mae cynllunio ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn aml wedi bod yn rhy ymatebol i alw yn hytrach nag yn ymatebol i angen. Mae hyn wedi golygu fod gwasanaethau cyhoeddus wedi darparu gwasanaethau sy'n trin problemau wedi iddynt godi, yn hytrach na'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Fel Bwrdd Gwasanaethau Lleol, rydym yn cefnogi'r egwyddor o atal ac ymyrryd yn gynnar ac yn cydnabod yr angen i weithio’n wahanol er mwyn gwasanaethu anghenion ein cymunedau yn well ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda ffocws penodol ar y rhai sydd dan anfantais; yn agored i niwed neu mewn perygl o fod yn agored i niwed.

Mae llawer iawn o waith ataliol wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd gyda llwyddiannau nodedig, fodd bynnag mae gormod o wasanaethau yn parhau i drin problemau wedi iddynt godi. Er mwyn torri cylchoedd o ddibyniaeth a throsglwyddo canlyniadau gwael rhwng y cenedlaethau, mae’n rhaid i ni ganolbwyntio mwy o ymdrechion ac adnoddau ar wasanaethau sy'n cynnig camau atal ac ymyrryd yn gynnar.

Mae’r rhan fwyaf o bobl ym Merthyr Tudful yn byw yng nghanol rhwydwaith o deulu, ffrindiau a chymdogion sy'n dylanwadu ar ansawdd eu bywyd. Maen nhw yn eu tro yn cyfrannu at y gymuned maen nhw’n byw ynddi. Mae angen ategu’r rhwydweithiau hyn drwy gefnogi pobl i fyw bywydau bodlon, a phan maen nhw angen y gefnogaeth hon i fynd i’r afael â phroblemau bywyd. Mae hyn yn bwysig nid yn unig ar gyfer yr unigolion dan sylw ond ar gyfer cadernid, lles a datblygiad ein cymuned gyfan. I wneud hyn mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaethau iawn ar gael ar yr adeg iawn, a sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn gydgysylltiedig. Mae hyn yn ymwneud â rheoli anghenion ein cymuned.




Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn pwysleisio pwysigrwydd pob rhan o Gymru yn darparu cymorth amlasiantaethol i deuluoedd sydd angen hynny, wedi'i deilwra i'r materion penodol maen nhw’n eu hwynebu, gan ddwyn cymorth ynghyd gan y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd, addysg, cyfiawnder a gwasanaethau gwirfoddol.

Drwy wella ein gallu i ymateb yn gyflym drwy atal ac ymyrryd yn gynnar, mae gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaid yn ceisio helpu mwy o bobl i fyw bywydau bodlon yn y gymuned, gan leihau'r angen am wasanaethau arbenigol yn y dyfodol.

Fel y sefydliadau allweddol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y Fwrdeistref Sirol; mae LSB Merthyr Tudful wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wella iechyd a lles y rhai sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, a’r rhai sy’n ymweld â Merthyr Tudful. Gweledigaeth LSB Merthyr Tudful yw:

> "I atgyfnerthu sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd ac i fod yn fan i fod yn falch ohono lle mae:
>
> - Pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i wireddu eu dyheadau;
> - Pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael bywyd bodlon, iach a diogel; a
> - Lle mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd".

I gefnogi'r weledigaeth hon, mae partneriaeth yr LSB wedi cytuno i weithio ar gyflwyno 4 canlyniad â blaenoriaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod gan bobl Merthyr Tudful y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial. | Sicrhau fod pobl ym Merthyr Tudful yn elwa ar economi gref, gynaliadwy ac amrywiol. | Sicrhau fod pobl sydd yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi i fwynhau bywyd iachach ac o ansawdd gwell. | Sicrhau fod pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i weithio, byw a chwarae ynddo ac i ymweld ag o. |

**EGWYDDOR SYLFAENOL**
**Dysgu am Oes**

Mae dogfen canllaw Llywodraeth Cymru 'Cyd amcanu  Cydymdrechu' yn nodi rôl y llywodraeth leol, drwy ei LSBau, i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn gan ddwyn arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i gynllunio, gweithio, cyflawni a gwella. Rydym i gyd yn cytuno fod yn rhaid i bartneriaeth olygu gweithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth yn hytrach na siarad gyda'n gilydd yn unig.  Mae'n rhaid canolbwyntio ar agenda cyffredin i wella canlyniadau, gan roi pwyslais ar flaenoriaethau, cyflymder a pherfformiad.

I gyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn SIP Merthyr Tudful, cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu. ***Nid yw'r camau hyn yn cynnwys popeth y byddwn yn ei wneud; maen nhw'n canolbwyntio ar y meysydd y gallwn gyflawni'r effaith mwyaf ynddyn nhw dros y 2 flynedd nesaf.*** Er mwyn gwneud yn siŵr fod y gweithgareddau a gyflawnir gan yr LSB yn gwneud gwahaniaeth i gymunedau nodwyd nifer o fesurau poblogaeth cyffredin i ddangos effaith gweithio mewn partneriaeth.  Nid oes un asiantaeth benodol yn gyfrifol am y mesurau poblogaeth hyn; dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gellir eu cyflawni a bydd yr LSB yn derbyn diweddariadau perfformiad rheolaidd gan gydweithwyr sy'n arwain ar y meysydd hyn.

Dylid nodi bod cyflawni'r camau hyn wedi dod yn fwyfwy heriol am nifer o resymau gan gynnwys lleihau cyllidebau o ganlyniad i fesurau caledi parhaus llywodraeth y DU; disgwyliadau cynyddol ein cymunedau; newidiadau mewn tueddiadau demograffig, cymdeithasol ac amgylcheddol (e.e.) poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, newid yn yr hinsawdd ac ati.

## EIN HANGHENION

Mae LSB Merthyr Tudful wedi gweithio'n galed i ganfod anghenion y **gwahanol** gymunedau ym Merthyr Tudful. Cynhaliwyd asesiad manwl o anghenion Merthyr Tudful pan ddatblygodd yr LSB y Cynllun oedd yn dangos i ni sut beth yw byw ym Merthyr Tudful. Gallwch weld Crynodeb o'r Asesiad Anghenion drwy glicio ar yr eicon isod:




Mae asesiad anghenion yr SIP yn defnyddio data, tystiolaeth ymchwil a gwybodaeth a gasglwyd trwy gyfrwng gwaith gwerthuso (a gomisiynwyd, lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol) sy'n gallu ein helpu i ddeall anghenion pobl ym Merthyr Tudful yn well. Rôl yr LSB yw defnyddio’r dadansoddiad o anghenion lleol i bennu beth fydd y flaenoriaeth uchaf o ran gweithredu lleol. Mae diweddariadau dilynol yr asesiad o anghenion yn cadarnhau bod y blaenoriaethau a gytunwyd arnynt gan LSB Merthyr Tudful yn parhau i fod yn berthnasol heddiw.

Fel rhan o’r daith wella barhaus, mae’n rhaid i'r broses asesu anghenion adlewyrchu’r gofynion yn y dyfodol o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. I'r perwyl hwn, cytunodd y sefydliadau perthnasol i weithio’n agosach gyda’i gilydd er mwyn canfod sut i symud y gwaith ymlaen o ran cyflawni asesiad o anghenion a fydd yn galluogi’r LSB i fodloni’r amcanion lles.

Fel rhan o'r adolygiad o'r cynllun, mae LSB Merthyr Tudful hefyd yn adolygu anghenion ac mae dogfen crynodeb o anghenion wedi’i diweddaru yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y ddogfen hon ar gael yn ystod tymor yr Hydref 2015.

## Y BROSES ADOLYGU

Mae SIP Merthyr Tudful wedi'i amserlennu i redeg o 2013 2017; golyga hyn fod y Cynllun wedi cyrraedd canol ei dymor ar adeg yr adolygiad blynyddol hwn.

Gwnaed penderfyniad i ddefnyddio'r adolygiad hwn nid yn unig i bennu cynnydd hyd yn hyn ond i nodi gwersi a ddysgwyd yn ystod y 2 flynedd gyntaf o gyflawni yn erbyn y Cynllun. Drwy wneud hyn, byddai'n galluogi'r LSB i addasu fel bo'r angen i adlewyrchu'r gwersi hyn a ddysgwyd ac i gynnal a pharhau i ddatblygu'r gweithgareddau er mwyn diwallu'r angen a nodwyd.

Cynhaliwyd gweithdy rhyngweithiol ym mis Mawrth 2015 lle gallai'r holl Arweinwyr Blaenoriaeth, yn ogystal â swyddogion perthnasol eraill, adolygu'r cynnydd a wnaed hyd yma yn gyfannol. Roedd nifer dda yn bresennol yn y gweithdy gyda lefel uchel o gyfranogiad gan bawb a gymerodd ran.

Prif ffocws y sesiwn oedd:

- I ddatblygu'r mesurau sy'n parhau i ddangos effaith ar gymunedau ym Merthyr Tudful ymhellach yn erbyn canlyniadau'r SIP y cytunwyd arnynt;
- Symleiddio'r mesurau yn yr SIP i ganfod 'gwerth ychwanegol';
- Adolygu mesurau'r SIP yn unol â gofynion deddfwriaeth newydd (e.e.) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a
- Datblygu ffyrdd mwy effeithiol o adrodd yn gysylltiedig â chyflwyno'r SIP.

I wneud yn siŵr fod y mesurau oedd wedi'u cynnwys yn yr SIP yn addas at y diben ac y gallant ddangos effaith; cyflwynwyd matrics y gellir ei ddefnyddio i asesu addasrwydd ar gyfer cynhwysiant. Gellir gweld copi o'r matrics hwn yn **Atodiad 1** ar Dudalen 34.

Trwy drafodaeth, daethpwyd i gonsensws y byddai'r mesurau yn SIP Merthyr Tudful yn canolbwyntio ar ddangos effaith yn unig (Cwadrant 3 neu 4 y Matrics). Gosodwyd y dasg i Arweinwyr Blaenoriaeth yr SIP ddefnyddio'r matrics i adolygu'r mesurau cyfredol yn yr SIP ac i ystyried ym mha ffordd (os o gwbl) mae'r rhain angen eu diweddaru/diwygio.

Cynhaliwyd cyfarfodydd un i un gyda'r holl bartneriaid sy'n cyfrannu at yr SIP, i symud y gwaith o symleiddio ac addasu'r mesurau yn ei flaen, a sicrhau mwy o atebolrwydd. Arweiniodd y cyfarfodydd hyn at nifer o newidiadau sylweddol i'r SIP. Bydd y manylion yn dilyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

### CANLYNIADAU'R CYFARFODYDD UN I UN

Mae proses adolygu'r SIP wedi arwain at effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar gyflawni yn erbyn canlyniadau â blaenoriaeth.

Cynigiodd y cyfarfodydd un i un gyfleoedd i archwilio trefniadau partneriaeth sy'n bodoli'n barod a datblygu trefniadau partneriaeth newydd, a bydd hyn yn atgyfnerthu perfformiad cydweithredol yn erbyn canlyniadau blaenoriaeth penodol, tra'i fod hefyd yn cefnogi'r LSB i ymateb i'r gofynion yn y dyfodol o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Amlinellir astudiaeth achos yn cynnig enghraifft o'r berthynas weithio newydd hon ar y dudalen ganlynol.

Drwy gefnogi partneriaethau sy’n datblygu, mae'r LSB yn gobeithio elwa o'r gwerth ychwanegol a gafwyd yn weithredol i sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth strategol.

**ASTUDIAETH ACHOS: GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH NEWYDD**

Wrth adolygu elfen 'Gweithgaredd Corfforol a Gordewdra' yr SIP gyda chydweithwyr o Iechyd y Cyhoedd, cytunwyd y dylem gymryd y cyfle hwn i edrych ar sut y gallai partneriaid eraill nad ydynt yn gweithio yn yr SIP gyfrannu'n gadarnhaol at y maes hwn. Trefnodd y tîm partneriaeth gyfarfod a gwahodd swyddogion o Dîm Bioamrywiaeth/Mannau Agored MTCBC a Thimau Datblygu Chwaraeon i gyfarfod ag Iechyd y Cyhoedd i archwilio’r potensial o alinio’r elfennau gwaith gwahanol hyn er mwyn i ni allu gwella’r hyn yr ydym yn ei gyflawni yn erbyn yr elfen hon o’r SIP. Cytunwyd y byddai mesur newydd yn cael ei gynnwys yn yr SIP yn gysylltiedig â gweithgarwch datblygu chwaraeon. Cytunwyd hefyd y byddai Swyddog o Dîm Chwaraeon a Hamdden MTCBC yn cael mewnbwn i Grŵp Llywio Gordewdra Plentyndod, gan gefnogi gwaith y grŵp tra hefyd yn datblygu cysylltiadau gyda Chynllun Gweithredol Cadw’n Heini Merthyr.

Daeth y Ddeddf Teithio Llesol yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Tachwedd 2014. Gosododd hyn ofyniad ar awdurdodau lleol i wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus ac i baratoi mapiau sy’n nodi llwybrau presennol a llwybrau posibl yn y dyfodol iddynt eu defnyddio. Mae hefyd yn gofyn i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar y cam dylunio.

Er na fydd unrhyw fesur yn ymddangos yn yr SIP yn gysylltiedig â hyn ar gyfer 2015/16; sefydlwyd prosiect peilot gyda’r GIG; Chwaraeon Cymru a MTCBC i dargedu ardaloedd lle nodwyd lefelau isel o weithgarwch corfforol. Roedd yr ardaloedd hyn yn cynnwys Tylorstown (Rhondda Cynon Taf) ac ardal clwstwr Gogledd Cymunedau’n Gyntaf (sy'n cynnwys Dowlais, Gurnos a Phenydarren) ym Merthyr Tudful.

I ddechrau, bydd y prosiect peilot yn ymestyn am y tair blynedd nesaf ac mae’n nodi chwe ardal cydweithredu sydd yn cynnwys:

- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi pobl Cymru i fwynhau bywydau mwy egnïol, mwy cyfartal ac iachach.
- Gweithio i annog pobl i edrych ar ôl eu hiechyd eu hunain a thrwy hynny i gymryd gofal o iechyd cenedlaethau'r dyfodol
- Gweithio i feithrin perthynas cydgynhyrchiol gyda phobl Cymru.
- Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi'r ymgyrch am newid torfol yn y cyhoedd o ran meddwl am eu iechyd
- Cyfnewid gwybodaeth o ddiddordeb i ni gyd
- Ceisio datblygu meysydd gwaith ar y cyd sy'n hyrwyddo 'chwaraeon i bawb' ac;
- Annog cyfranogiad ar draws eu hoes.

Y manteision arfaethedig:

- Model mecanwaith yn seiliedig ar le sy’n adeiladu ar y fframwaith cyfredol o wasanaethau mewn cymunedau difreintiedig, ac yn manteisio i’r eithaf arno;
- Hyrwyddo cyd-gynhyrchu a mabwysiadu dull yn seiliedig ar asedau o ran dylunio a chyflwyno gwasanaethau, sydd yn golygu y gall unigolion ehangu eu galluoedd a gwella eu sefyllfa eu hunain, yn ogystal â chyfrannu mewn cymunedau (difreintiedig) ehangach;
- Gall dull aml-asiantaethol hybu gwydnwch sefydliadau a chymunedau yn yr ardaloedd difreintiedig a nodwyd;
- Mae rhannu cyllid sy’n golygu diddordeb cyffredin, yn caniatáu i nifer o faterion gael sylw ar draws yr asiantaethau sy’n cymryd rhan;
- Defnyddio gweithgarwch corfforol fel cyfrwng i ymdrin ag anghydraddoldeb iechyd a thlodi ar lefel gymunedol;
- Gellir integreiddio’r Llwybr Gofal Gweithgarwch Corfforol fel datrysiad gyda mentrau iechyd y cyhoedd eraill a llwybrau cleifion megis asesiad risg CHD a llwybr gofal Gordewdra; ac
- Gwaith wedi'i dargedu wedi’i ddylunio i ddiwallu angen lleol.

Neges allweddol o'r cyfarfodydd un i un oedd yr angen i gydnabod na all y cynllun integredig sengl fod yn bopeth i bawb. Mae nifer o strategaethau cyfredol y mae'n partneriaid yn cyfrannu atynt a chanddynt ganlyniadau cyffredin i'r SIP. Dylai'r SIP fod yn gynllun a fydd yn cefnogi partneriaid i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, yn hytrach na bod yn rhwystr i gynnydd. Roedd y gofyniad i arweinwyr SIP adrodd ar yr un mater ar draws sawl fforwm yn fater allweddol i hyn, ac roedd yn arwain yn aml at ddyblygu amser ac ymdrech, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflawni.

Er mwyn rhoi sylw i hyn wrth symleiddio'r dull o adrodd, gwnaed y penderfyniad i gynnig fod yr LSB yn cytuno i dynnu'r mesurau hyn o'r SIP, pan fo Arweinwyr yn adrodd ar ganlyniadau cyffredin (y bydd mesurau yn deillio ohonynt) a gafwyd o gynlluniau strategol eraill. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau fod cysylltiadau â'r meysydd allweddol hyn yn parhau, byddai'n ofynnol i Arweinwyr Blaenoriaeth adrodd yn uniongyrchol i o leiaf un cyfarfod LSB (yn amlach pan fo'n angenrheidiol) gan ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o berfformiad, yn cynnwys tueddiadau allweddol, llwyddiannau, materion/rhwystrau ac unrhyw beryglon eraill i gynnydd. Byddai'r LSB yn ystyried ei safle ar y cyd ar y ffordd orau i oresgyn/rhoi sylw i'r rhain, tra'n cefnogi partneriaethau cyson a chadarnhaol. Mae'r darlun canlynol yn rhestru nifer o gynlluniau strategol yr adroddir amdanynt mewn fforymau eraill. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr effaith mesuradwy yn erbyn 4 canlyniad â blaenoriaeth SIP Merthyr Tudful:














**Y CYNLLUN INTEGREDIG SENGL AR GYFER MERTHYR TUDFUL**

**2013-2017**















**RHEOLI PERFFORMIAD SIP 2014-2015**

**Monitro cynnydd ein Cynllun Integredig Sengl**

Mae'r 4 Canlyniad â blaenoriaeth yn yr SIP yn seiliedig ar feysydd blaenoriaeth. Ymhob un o'r meysydd blaenoriaeth mae'r LSB wedi nodi nifer o fesurau allweddol y bydd yn eu monitro er mwyn dangos p'un a yw camau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y gymuned.

Mae templedi adrodd wedi cael eu datblygu (gan fabwysiadu dull Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau) sy'n galluogi'r Arweinwyr Blaenoriaeth i nodi camau/prosiectau sy'n cael eu cyflwyno ac, yn bwysicach na hynny, i amlygu unrhyw effaith mae'r rhain yn eu cael.

Roedd y cylch adrodd a drefnwyd ar gyfer 2014 15 fel a ganlyn:

**Grŵp Llywio SIP**

- Cymunedau Mwy Diogel;
- Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Camddefnyddio Sylweddau;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Rheoli Troseddwyr;
- Tai;
- Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed.

**Bwrdd Gwasanaethau**

- Cymunedau Mwy Diogel;
- Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Camddefnyddio Sylweddau;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Rheoli Troseddwyr;
- Tai;
- Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed.

**Grŵp Llywio SIP**

**Bwrdd Gwasanaethau**

**Cardiau Adroddiad a gyflwynwyd:**

- Ffyrdd Iach o Fyw - Ysmygu;
- Ffyrdd iach o fyw – Gordewdra a Gweithgarwch Corfforol;
- Ffyrdd Iach o Fyw - Iechyd Rhywiol;
- Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol;
- Hybu Annibyniaeth;
- Diwallu Anghenion Plant Agored i Niwed.

**Grŵp Llywio SIP**

- Cyrhaeddiad a Sgiliau;
- Cyflogadwyedd;
- Cyfranogiad;
- Datblygu Economaidd a Busnes.

**Bwrdd Gwasanaethau**

- Cyrhaeddiad a Sgiliau;
- Cyflogadwyedd;
- Cyfranogiad;
- Datblygu Economaidd a Busnes.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn dibynnu ar y gefnogaeth rheoli perfformiad a ddarperir gan Dîm Partneriaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Yn ystod 2014/15 mae Swyddog Monitro ac Ymchwil y tîm wedi darparu cefnogaeth un i un unigryw i Arweinwyr Blaenoriaeth yn ymwneud â'r data a'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cardiau adrodd, gydag anghenion cefnogaeth eraill yn cael eu bodloni gan Reolwr yr LSB a Phartneriaethau a Swyddog Datblygu a Chefnogi'r LSB.

**LLWYDDIANNAU AC EITHRIADAU ALLWEDDOL A NODWYD YN YSTOD 2014-2015**

Mae crynodeb o'r llwyddiannau a'r eithriadau/rhwystrau allweddol a godwyd gan yr Arweinwyr Blaenoriaeth mewn cyfarfodydd LSB drwy gydol 2014/2015 wedi'i nodi isod. Cyflwynwyd y wybodaeth hon yn nhrefn y Canlyniad â Blaenoriaeth er hwylustod.

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 1:**<br>Sicrhau fod gan bobl Merthyr Tudful y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial. |
|---|
| **Llwyddiannau allweddol yn ystod 2014/2015** |
| • Mae Merthyr Tudful wedi gweld cyfradd fwy o wella yn y ganran o bobl ifanc 15 mlwydd oed sydd yn cyflawni 5 A* i C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, a Mathemateg na'r gyfradd o wella cenedlaethol. Bu i berfformiad gynyddu o 10.2% o'i gymharu â chynnydd cyffredinol o 2.7% yng Nghymru.<br>• Nodwyd tueddiadau cadarnhaol o ran perfformiad ar draws yr holl ddangosyddion allweddol ar y cyfnod sylfaen, cyfnod allweddol 2, cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ac mae cyfradd y cynnydd yn gyflymach nag ar lefel genedlaethol.<br>• Tuedd gadarnhaol ym mherfformiad cyfnod allweddol 2 o ran Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg (RWM) a Darllen, Ysgrifennu, Mathemateg a Gwyddoniaeth (RWMS) wedi'u cyfuno. Y gwahaniaeth o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yw 0.4 a 0.2 yn y drefn honno ac mae perfformiad yn safle 15/22 a 17/22 o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill.<br>• Cynnydd yng nghanran y disgyblion prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg o 12.3 yn 2013 i 22.6 yn 2014, cynnydd ar 10.3 pwynt canran.<br>• Gwneir cynnydd rhagorol yn erbyn cynllun cyflogadwyedd Merthyr Tudful gyda 52% o'r camau a nodwyd yn y cynllun gweithredol wedi'u cyflawni ar gyfer y cyfnod Ebrill 14 – Medi 2014. Mae partneriaid yn cyfrannu'n dda.<br>• Mae cynnydd allbynnau yn erbyn targedau yn mynd yn dda gyda dwy ardal yn gwneud yn well na'u proffil ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn ac wedi gwneud yn well na'r targed blynyddol ar ôl chwe mis.<br>• Yn dilyn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) daeth cyfle i'r Bartneriaeth Cyflogadwyedd greu drafft/cyflwyno nifer o geisiadau; arweiniodd hyn at y Bartneriaeth yn sicrhau tua £185,000 o arian. Cadarnhaodd y DWP fod y dull partneriaeth hwn wedi eu galluogi i ddyfarnu mwy o grantiau yn effeithiol ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.<br>• Drwy'r dull llwyddiannus a fabwysiadwyd gan holl aelodau cabinet ieuenctid MTBWYF, bu i aelodaeth MTBWYF gynyddu o 162% yn ystod 2014/15.<br>• Cyflwynodd Cabinet Ieuenctid MTBWYF gyfarfodydd thematig llwyddiannus yn ystod 2014/15: roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd oedd yn canolbwyntio ar addysg; Iechyd; grwpiau lleiafrifol a diogelu.<br>• Cynhyrchu a chyflwyno DVD ac Adnodd Dysgu 'Caught in Traffick' a gaeth ei gymeradwyo o ran ansawdd a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron.<br>• Bu i aelodau MTBWYF gyfarfod cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fel rhan o Ymweliad Monitro 'Cyd amcanu, Cydymdrechu'; roedd yr adborth a dderbyniwyd wedi hynny gan Lywodraeth Cymru yn amlygu nifer o sylwadau cadarnhaol gan gynnwys y ffaith mai Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful oedd yr unig LSB gyda chynrychiolydd pobl ifanc yn eistedd ar y Bwrdd fel aelod llawn. |
| **Meysydd i'w Hystyried/Gwella yn ystod 2014/2015** |
| • Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen; Cyfnod Allweddol 2; Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br>• Yn 2014 bu i bresenoldeb mewn Ysgolion Cynradd gynyddu o 0.6% i 93.9% o'i gymharu â ffigyrau o 2013. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'i |

gymharu ag awdurdodau lleol eraill, roedd MTCBC yn safle 22 o 22 o gymharu â 2013 (17 allan o 22).

- Yn 2014 bu i bresenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd ostwng o'i gymharu â 2013 o 0.4% i 92.9%. Fodd bynnag, roedd hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. O'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill, roedd MTCBC yn safle 21 o 22 o gymharu.
- Bu i'r gyfradd gwahardd o ysgolion cynradd gynyddu yn 2014 fel y gwnaeth hyd cyfartalog y gwaharddiad o'r ysgol gynradd.

**Meysydd i'w Hystyried/Gwella yn ystod 2014/2015 (parhad)**

- Mae Llywodraeth Cymru newydd roi cytundeb i sefydliad Plant yng Nghymru yn ymwneud â'r dulliau y byddan nhw'n eu defnyddio wrth fabwysiadu'r Saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol ac yn eu cyflwyno wedi hynny. Mae hyn wedi creu rhai anawsterau yn ymwneud â Nod Barcud Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru yn ystod 2014.
- Sicrhau trawsgynrychiolaeth o'r holl bobl ifanc ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn Cyfarfodydd MTBWYF llawn yn y dyfodol sicrhau cynrychiolaeth o grwpiau lleiafrifol.
- Yr angen am fwy o ymgysylltu a chynrychiolaeth o ysgolion.
- Mae pedair Swydd Cabinet MTBWYF ar gael ar gyfer etholiad yn ystod 2015 – felly, mae angen dilyniant drwy'r dulliau busnes a momentwm a fabwysiadwyd gan y Cabinet Ieuenctid presennol o golli 4 aelod profiadol.
- Daeth Pontydd i Waith i ben ar 31 Mawrth 2015. Mae'r tîm cyflwyno wedi aros yn eu swyddi fis ar ôl mis ac maen nhw wedi cael estyniad tan fis Awst 2015. Mae hyn yn amodol ar benderfyniad gan WEFO o ran cymeradwyo Pontydd i Weithio 2. Mae disgwyl i hyn ddigwydd yn ystod haf 2015. Mae arwyddion yn gadarnhaol ac mae'r cais rhanbarthol yn mynd drwy'r asesiad terfynol. Mae pob un o'r 18 aelod o staff yn parhau i fod ar rybudd diswyddo gorfodol.
- Bydd methu a chael cymeradwyaeth gan WEFO a chael ymrwymiad gan MTCBC i symud ymlaen gyda darpariaeth wedi'i ariannu gan yr UE yn creu bwlch yn y ddarpariaeth dysgu a sgiliau ym Merthyr Tudful ac ar draws y rhanbarth.
- Mae diswyddiadau yn y sector cyhoeddus yn arwain at ostyngiad yng ngallu staffio i gyflawni'r Agenda Cyflogadwyedd.

**CANLYNIAD BLAENORIAETH 2:**
Sicrhau fod pobl ym Merthyr Tudful yn elwa ar economi gref, gynaliadwy ac amrywiol.

**Llwyddiannau allweddol yn ystod 2014/2015**

- Cwblhau elfennau allweddol Rhaglen Adfywio Ffisegol Canol y Dref gan gynnwys Cyswllt Canolog yr Afon Taf a Sgwâr Penderyn.
- Cwblhau Sgwâr Treharris fel rhan o raglen adfywio Bargoed Taf.
- Cyflwyno Cynllun Rheoli Cyrchfannau cyntaf Merthyr gyda'r cam nesaf i'w gyflawni yn cael ei adolygu.
- Rhoi'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchu Llawn Addewid (VVP) ar waith yn fyw.
- Datblygwyd model cyflawni ar y cyd ar gyfer y Rhaglen VVP gan ffurfio nifer o bartneriaethau i gyflawni prosiectau allweddol. Mae llawer o'r ddarpariaeth tebyg i gefnogaeth busnes oedd yn cael ei chynnig gan yr adran Datblygu Economaidd nawr yn fewnol yn Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn risg mawr i'r adran golli cysylltiad gyda'r sector busnes. Fel rhan o'r Rhaglen VVP, datblygwyd prosiect i sicrhau bod y cysylltiad gyda'r sector preifat yn parhau i fod yn gryf a bod cyllid yn cael ei ddyrannu i sefydliad trydydd sector lleol er mwyn datblygu canolfan Fenter i fod yn bwynt cyswllt i fusnesau newydd a busnesu cyfredol ac yna i'w cyfeirio at yr asiantaethau perthnasol yn dibynnu ar eu hanghenion. Mae'r ymagwedd greadigol hon wedi sicrhau bod y sector yn parhau â'u perthynas weithio agos gyda'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol ym Merthyr ac i'r anghenion busnes gael eu cefnogi mewn modd mwy cyfannol.
- Mae partneriaethau sy'n bodoli'n barod wedi'u gwella drwy'r Rhaglen VVP er enghraifft gyda'r Ymddiriedolaeth Treftadaeth ac mae partneriaethau newydd wedi'u hadeiladu gyda'r RSLau.
- Dyraniad gwario Blwyddyn 1 a gyflawnwyd (£3.6m).
- Mae ffigyrau Enillion ar Fuddsoddiad yn amlinellu sut mae buddsoddiad wedi'i sicrhau o ddyraniad bychan o Raglen Cyfalaf MTCBC.

| |
|---|
| • Mae datblygu Sgwâr Penderyn wedi galluogi cynnal nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys Gŵyl Fwyd gyntaf Merthyr gan ddenu dros 5,000 o bobl a'r Fiesta Tsili gan ddenu dros 3,500 o bobl.<br>• Fel rhan o Ymgyrch Lleoedd Arbennig yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol cafodd Castell a Pharc Cyfarthfa ei bleidleisio fel yr ail hoff le arbennig yng Nghymru i ymweld ag o a gweddillion y Castell oedd y trydydd atyniad rhad ac am ddim mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Oherwydd y buddsoddiad a wnaed hyd yma yn y parc, a'r buddsoddiad parhaus yn y Parc a'r Castell, mae'r cynnyrch yn parhau i gael ei ddatblygu ac oherwydd hyn mae nifer yr ymwelwyr yn parhau yn uchel.<br>• Ym Mharc Beicio Cymru mae nifer y cwsmeriaid yn parhau yn uchel yn ei ail flwyddyn, gyda dros 100,000 o bobl yn defnyddio'r cyfleuster. |
| **Meysydd i'w Hystyried/Gwella yn ystod 2014/2015** |
| • Cydlynu dull partneriaeth integredig i gael mynediad at Gyllideb yr UE.<br>• Trosi amcanion strategol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'w cyflawni'n weithredol yn gyfartal gan yr holl bartneriaid.<br>• Bydd angen i'r model cyflawni ar y cyd drwy Raglen VVP barhau i wella yn 2015/16. |
| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 3:**<br>Sicrhau fod pobl sydd yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi i fwynhau bywyd iachach ac o ansawdd gwell. |
| **Llwyddiannau allweddol yn ystod 2014/2015** |
| • Mae canlyniadau Arolwg Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2014 yn dangos gostyngiad yn nifer yr oedolion sy'n ysmygu ym mhob ardal awdurdod lleol.<br>• Sicrhau cyllid gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf i ehangu MAMSS a sicrhau ei fod ar gael i'r holl fenywod beichiog sy'n ysmygu yn y Rhondda, Cynon a Thaf Elai.<br>• Mae gwasanaethau Fferylliaeth Cymunedol ychwanegol wedi'u cynllunio x3 Merthyr Tudful; x9 Rhondda Cynon Taf<br>• Cynlluniau ar gyfer amgylcheddau Di fwg ym Merthyr Tudful mis Mawrth 2015.<br>• Cyn lansio'r gwasanaeth gordewdra ymysg mamau cafodd yr holl fydwragedd hyfforddiant ar sut i godi'r mater o bwysau gyda merched beichiog.<br>• Mae prosiect marchnata cymdeithasol ym Merthyr Tudful yn cynnig mewnweledìad cymunedol ar sut i annog a galluogi mwy o fannau sydd yn gyfeillgar i fwydo ar y fron yn yr amgylchedd a'r gymuned.<br>• Gostyngiad mewn cyfraddau beichiogi ymhlith merched 15 17 oed yng Nghwm Taf, sy'n cyfateb i ostyngiad o 48% mewn beichiogrwydd yng Nghwm Taf dros y pum mlynedd diwethaf.<br>• Cynhaliwyd cynhadledd SHAB Cwm Taf ym mis Medi, i roi'r newyddion diweddaraf am newidiadau i wasanaethau lleol ar gyfer pobl ifanc ac ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu'r SHAB.<br>• Ymateb partneriaeth leol i gynnydd a gofnodir o achosion syffilis heintus.<br>• Mae'r nifer o fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig Dulliau Brys i Atal Cenhedlu wedi cynyddu i 64 ac mae cynnydd wedi bod yn y nifer y merched sy'n dewis y pigiad atal cenhedlu (LARC).<br>• Cynhaliwyd cynllun peilot ar gyfer cyrsiau cymunedol ***rheoli pwysau ac ymwybyddiaeth ofalgar*** haen '0' ledled Merthyr Tudful. Wedi'u cyflwyno mewn lleoliadau cymunedol gan y Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol mewn partneriaeth â Cymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y Gogledd a'r De) a'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd; cynhaliwyd 6 cwrs gyda 30 o bobl yn mynychu ar gyfartaledd.<br>• Datblygwyd ***Gwasanaeth Eirioli PIP*** *(*a ariannwyd gan grant Iechyd Meddwl Comic Relief) gan MIND Merthyr a'r Cymoedd ac mae wedi gweithio'n benodol gyda phobl mewn Gwasanaethau Gofal Eilaidd drwy'r camau pontio o DLA i PIP. Bu i bob gwariant o £1 (grant) gynhyrchu £7 o incwm (PIP) gyda rhagolygon yn dangos dros £600,000 o hawliadau PIP yn cael eu cynhyrchu a'u diogelu i'r rheiny gyda SMI ac yn byw yng Nghwm Taf.<br>• Mae ***'Paratoi i Ofalu'*** (a ddatblygwyd gan MIND Merthyr a'r Cymoedd) wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth â Cymunedau'n Gyntaf ym Merthyr Tudful ac mae wedi rhoi cyfleoedd dysgu i ofalwyr o ganolbwyntio ar Hawliau Gofalwyr i asesiad ac incwm. Cafodd ei arian grant gan Elusen Henry Smith, cymrodd 64 o bobl ran yn y prosiect a |

chyflawnwyd 100% o ddysgu achrededig.

- Roedd ***prosiect ELSA*** yn canolbwyntio ar adeiladu capasiti ysgolion i gefnogi anghenion emosiynol eu disgyblion gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain. Datblygwyd y fenter i roi mwy o sylw a gofal er mwyn galluogi plant ag anghenion emosiynol dros dro neu hirdymor i deimlo'n well amdanyn nhw eu hunain a'u hamser yn yr ysgol; Cynorthwywyr Cefnogi Dysgu yw ELSAs ac maen nhw'n cael pum diwrnod ychwanegol o hyfforddiant ar agweddau o lenyddiaeth emosiynol gan gynnwys ymwybyddiaeth emosiynol, hunan barch, rheoli dicter, sgiliau cymdeithasol a sgiliau cyfeillgarwch. Cefnogir y prosiect gan seicolegwyr addysg, mae'r cynllun bellach ar gael yn holl ysgolion Merthyr Tudful.
- Mae amrywiaeth o wasanaethau wedi'u cydleoli yn y Parc Iechyd gan gynnwys y canlynol: Gwasanaethau Ailalluogi; COTs; Iechyd Meddwl a Thŷ Telecare (cyfleuster arddangos offer / cymhorthion). Mae cyd leoli gwasanaethau yn golygu bod cyfathrebu a'r modd y gweithiwn gyda'n gilydd wedi gwella.
- Cynaliadwyedd y prosiect Eirioli PIP pan ddaw Arian Comic Relief i ben.
- Cynaliadwyedd y prosiect 'Paratoi i Ofalu' yn ardal Merthyr Tudful wedi Mehefin 2015.

**Llwyddiannau allweddol yn ystod 2014/2015**

- Mae'r prosiect SAGE sydd wedi cael ei ddatblygu yn ystod 2014/15 yn seiliedig ar y Model Grymuso i gefnogi goroeswyr cam drin rhywiol yn ystod plentyndod. Mae'n brosiect ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol o'r CMHT ym Merthyr Tudful a Cynon yn gweithio gyda'i gilydd arno. Mae'r staff wedi'u hyfforddi ar egwyddorion therapi Trawma. Mae'r gwaith hwn yn anelu at gefnogi'r gwaith a wneir fel rhan o atal Hunanladdiad a Hunan Niwed.
- Ymgyrch Amser i Newid Cymru (TTCW) yw'r ymgyrch cenedlaethol cyntaf sydd wedi'i anelu at roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu. Bydd Bwrdd Iechyd Cwm Taf (UHB), Cyngor Bwrdeistref Sirol (CBC) Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol (CBC) Merthyr Tudful yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer yr ymgyrch. Mae pob partner wedi nodi Hyrwyddwr TTCW (ym Merthyr y Cynghorydd David Davies yw'r Hyrwyddwr).
- Cynhaliodd Merthyr Tudful ddigwyddiad Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd llwyddiannus arall ar 9 Hydref 2014; roedd tua 300 o bobl yn bresennol a bu i 75+ o sefydliadau arddangos eu gwasanaethau a'u gwaith ar y diwrnod. Roedd y digwyddiad yn cefnogi'r agenda atal ac ymyrryd yn gynnar gan wneud yn siŵr fod gwybodaeth yn hygyrch i'r cyhoedd yn ogystal â chyfeirio unigolion at y gwasanaeth / ffynhonnell wybodaeth briodol.
- Rhoi'r Gronfa Gofal Canolraddol ar waith (£4.377m ledled Cwm Taf) gan gyflwyno amrywiaeth o brosiectau drwy 4 ffrwd gwaith: gosod y sylfeini'n barod i drawsnewid gwasanaethau; hyrwyddo lles drwy arweiniad y Trydydd Sector; arwyddocâd yr amgylchedd ffisegol a Chomisiynu.
- Cyflawnwyd cynnydd parthed: gweithredu canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar "les integredig, asesu, cynllunio cefnogi gofal ac adolygu trefniadau i gefnogi pobl hŷn". Mae templed lleol cyffredin i gasglu set data craidd gofynnol a ffurflen atgyfeirio yn cael eu defnyddio ar draws RCT, Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Cytunwyd ar Brotocol Rhannu Gwybodaeth a chynhyrchwyd Taflen Wybodaeth i'r Claf.

  Mae Canolfan Deulu Gellideg yn parhau i ddarparu gwasanaethau a chymorth rhagorol i bobl yr ydym yn gweithio gyda nhw. Yn ystod 2014/15; mae Gwasanaeth Plentyn Mewn Angen Ychwanegol wedi cael ei reoli yno ac wedi gweithio gyda nifer o deuluoedd i asesu eu hanghenion. Nod y gwasanaeth oedd diwallu heriau deuol darparu ymyrraeth gynnar fwy arbenigol er mwyn atal yr angen rhag gwaethygu ochr yn ochr â sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes ganddynt ddewis arall sydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sefydlu Gwaith Cydweithredu Mabwysiadu Rhanbarthol i sicrhau hyn yn y dyfodol.
- Sefydlu Hwb Diogelu Aml Asiantaethol (MASH).
- Erbyn hyn, mae gan bob ysgol gyfun ym Merthyr Tudful Hyrwyddwyr Gofalwyr sy'n gallu helpu i ganfod a chefnogi gofalwyr ifanc.
- Mae datblygiad Canllaw A Z Gofalwyr Cwm Taf a gynhyrchwyd gan Gynghorau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn rhoi gwybodaeth am wasanaethau a sut i gael mynediad atynt.

| |
|---|
| • Mae datblygiad Rhwydwaith Gofalwyr (sydd yn cynnwys cyrff statudol a chyrff yn y trydydd sector) wedi symud ymlaen yn wych o ran cynyddu'r nifer o ofalwyr sydd wedi'u nodi ac sydd bellach yn derbyn gwasanaeth. Mae'r Rhwydwaith mewn cysylltiad gyda dros 900 o ofalwyr yn ein cymuned, ac yn eu cefnogi. |
| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 4:**<br>Sicrhau fod pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i weithio, byw a chwarae ynddo ac i ymweld ag o. |
| **Llwyddiannau allweddol yn ystod 2014/2015** |
| • Nodwyd lleihad parhaus mewn lefelau troseddu yn gyffredinol yn ystod 2014/15.<br>• Nodwyd fod troseddu caffaelgar wedi lleihau/aros yr un fath.<br>• Nodwyd lleihad mewn troseddu cerbyd o'i gymharu â thueddiadau hanesyddol yn ystod 2014/15.<br>• Parhaodd Llys Arbenigol Trais Domestig Merthyr Tudful i gyflawni lefelau cynyddol o ganlyniadau cadarnhaol ac fe'i hystyrir yn faes o arfer gorau.<br>• Mae Rhaglen Perthnasau Iach sydd yn briodol i oedran (i gynnwys disgyblion Blwyddyn 6) wedi'i chyflwyno mewn Ysgolion Cynradd yn y Fwrdeistref (yn cynnwys myfyrwyr addysg Cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun).<br>• Cysylltiadau rhyngasiantaethol da yn MAC Teulu, yr Heddlu, a rhanddeiliaid statudol eraill.<br>• Nifer y bobl sy'n manteisio ar y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc.<br>• Nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Ymyriad Byr Alcohol.<br>• Gwnaed gwelliannau i drefniadau cyfnewid nodwyddau.<br>• Mae cyfraddau atgyfeirio yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau i'r adran Iechyd wedi cynyddu, a gellir ystyried hyn yn negyddol. Fodd bynnag, mae hyn yn gyflawniad cadarnhaol gan fod ymwybyddiaeth gynyddol ymysg gweithwyr proffesiynol wrth gydnabod achosion uniongyrchol/cysylltiadau rhwng iechyd gwael a chamddefnyddio alcohol/cyffuriau.<br>• Wedi'i integreiddio'n llawn gyda'r Gwasanaeth Ymyriad Troseddwyr Integredig (ISOS), yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf (CRC a NPS) sy'n caniatáu dull siop un stop ar gyfer gweithio gyda throseddwyr IOM.<br>• Roedd Llys y Vulcan (yr hen Vulcan House) yn llwyddiannus yn ennill Gwobr Sefydliad Tai y DU am y 'datblygiad bychan' gorau yn y DU.<br>• Manteisio i'r eithaf ar y Grant Tai Cymdeithasol (SHG); grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, gan arwain at ddyblu ein rhaglen SHG ar gyfer 2011/2012 a 2012/2013 a'i dreblu ar gyfer 2013/2014.<br>• Gwefan tai newydd a phroses gwneud cais am y Gofrestr Dewis Tai, gan greu 'siop un stop' unigryw ar lein ar gyfer tai (cyflawni effeithlonrwydd ac ail fuddsoddi).<br>• Mae dull y Panel Tai Lleol wedi gwella'r cyfathrebu rhwng y Cyngor a'r Sefydliadau Tai lleol a darparwyr cefnogaeth tai.<br>• Roedd hyd yr amseroedd aros am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gyson yn y chwartel uchaf.<br>• Mae dangosyddion digartrefedd yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn, yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru a rhai yn chwartel uchaf.<br>• Mae gan Fforwm Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf gynllun busnes gyda'r nod o wella ymatebion i gam drin domestig a lleihau cam drin domestig. Bydd asiantaethau sy'n aelodau o'r LSB yn ymwybodol o hyn drwy gynrychiolaeth asiantaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cynllun strategol.<br>• Cynhyrchwyd cynllun busnes 2012 2015 gan Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf sy'n nodi blaenoriaethau a busnes craidd y Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys yr amcan o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am eu rôl o ran adnabod a rhoi gwybod am bryderon ynghylch plant.<br>• Mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu at lwytho gwybodaeth ar y wefan a dyma'r dull y byddwn yn ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth gyda'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol. |
| **Meysydd i'w Hystyried/Gwella yn ystod 2014/2015** |
| • Gostyngiad mewn adnoddau yn arwain at lai o gapasiti ar gyfer gweithrediadau amlasiantaethol a chodi ymwybyddiaeth. |

- Cyflwyno ASB, Deddf Troseddu a’r Heddlu 2014.
- Adleoli staff Trwyddedu a Diogelwch Cymunedol SWP i Bontypridd.
- Mae cyllid blynyddol ar gyfer gwasanaethau yn llesteirio cynllunio tymor hir.
- Ansicrwydd ynghylch rhaglen rhanbartholi Llywodraeth Cymru a’r effaith bosibl ar ddarpariaeth gwasanaeth lleol.
- Nid ydym yn gallu symud ymlaen gyda gwella’r gefnogaeth i roi sylw i ymddygiad cyflawnwyr oherwydd diffyg adnoddau.
- Roedd rhoi llwybrau atgyfeirio’n ymwneud ag iechyd (Meddygon Teulu, Damweiniau ac Achosion Brys ac ati) ar waith a chael ffynonellau dibynadwy o ddata gan yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn dangos arwyddion o wella, ond mae gweithio mewn partneriaeth wedi dirywio’n ddiweddar. Mae angen gwaith pellach; bydd hyn yn cael ei alinio gyda’r gwaith sydd yn mynd rhagddo gan Swyddfa’r PCC.
- Gostyngiad posibl mewn cyllid camddefnyddio sylweddau.
- Diffyg cydweithredu partneriaeth o ran ad drefnu gwasanaethau.
- Llywodraeth Cymru yn symud i gaffael gwasanaethau ar draws Cymru.
- Gallai cynrychiolaeth awdurdod lleol yn y strwythur wella (h.y.) Cynrychiolwyr tai a diogelu. Hefyd, byddai sefydliadau yn y sector gwirfoddol yn elwa ar weithio uniongyrchol o swyddfa'r cynllun i wella’r cyfleoedd goruchwylio.
- Absenoldeb Cyllideb Cydlyniant Cymunedol.
- Diffyg gallu gweithredol i gyflawni canlyniadau.
- Cyllideb SHG gyfyngedig ar gael i MTCBC; mae wedi aros ar £667,000 am y 3 blynedd ddiwethaf ac mae’n debygol o aros yr un fath neu leihau yn y blynyddoedd sydd i ddod.
- Bydd Bil Tai Cymru, sy’n dod i rym yn rhannol ar 1 Ebrill 2015, yn effeithio’n sylweddol ar y ffordd mae Awdurdodau Tai lleol yn cyflwyno eu gwasanaethau ac yn cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.
- Y Sector Rhentu Preifat nad yw wedi datblygu’n ddigonol
- Argaeledd stoc tai yn briodol i’r galw am dai yn lleol a demograffeg newidiol y Fwrdeistref Sirol pobl sengl, pobl hŷn, llety arbenigol.
- Diffyg Tai Dros Dro / Darpariaeth Digartrefedd; oni bai am y ddarpariaeth Gwely a Brecwast lleol, nid oes mathau eraill o lety dros dro ar gael ym Merthyr Tudful.
- Cefnogir Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf gan adnoddau Cydlynydd a Gweinyddwr Bwrdd ac mae wedi’i ymgorffori’n dda yn nhermau ymrwymiad amlasiantaethol a blaenoriaeth. Cyflawnir gwaith y Cynllun Busnes gan is grwpiau’r Bwrdd. Er bod ymrwymiad yn amlwg, mae capasiti yn gyfyngedig ac o dan straen oherwydd y gofynion effeithlonrwydd a gallai hyn arwain at rywfaint o oedi wrth gyflawni amcanion.
- Ar y llaw arall, nid yw Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf yn elwa ar adnoddau cydlynydd na gweinyddwr pwrpasol. Mae hyn yng nghyd destun gofynion ychwanegol yng ngoleuni Dyfarniad Swydd Gaer, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd 2014, a gofyniad Adolygu Arfer Oedolion. Mae rhywfaint o gefnogaeth ar gael drwy drefniadau awdurdodau lleol ond yn ddelfrydol mae angen cydlynu penodol.

**EDRYCH YMLAEN AT 2015/2016**

Ar ddiwedd y broses adolygu; diweddarwyd yr SIP i adlewyrchu cynnwys y trafodaethau a gynhaliwyd. Mae'r mesurau wedi'u diweddaru wrth fynd ymlaen at 2015/2016 wedi'u rhestru isod (gyda nodyn llawn o'r holl fesurau ers dechrau'r SIP i'w weld yn **Atodiad 2** ar Dudalennau 26 29).

| |
|---|
| Mae datganiadau safbwynt terfynol sy'n cynnig y sail resymegol dros benderfyniadau arwyddocaol eraill sydd wedi'u cymryd hefyd wedi'u cynnwys. <br> **: <u>CANLYNIAD BLAENORIAETH 1:</u> Sicrhau fod gan bobl Merthyr Tudful y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial.** |
| **Beth yw ystyr hyn?** <br> Bydd pobl ifanc ac oedolion sy'n byw ym Merthyr Tudful yn ennill y cymwysterau a'r sgiliau bywyd fydd yn eu galluogi i gael llwyddiannau yn y byd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Mae hefyd yn golygu unigolion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain. Bydd effeithiau negyddol diweithdra yn lleihau a bydd cynnydd yn y graddau y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau. |

- Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen.
- Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen.
- Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg; Cymraeg neu Fathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
- Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU A* C mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.
- Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol cyfatebol.
- Canlyniadau o ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n gweithio i blant a phobl ifanc:
    a) Y nifer sydd wedi cytuno/cofrestru ar gyfer yr Addewid Cyfranogiad;
    b) Y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant 'Pobl Ifanc yn Dweud'; a'r
    c) Nifer sy'n cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau.
- Canran o Aelodau MTBWYF sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau MTBWYF:
    a) Cyfarfodydd y Cabinet;
    b) Cyfarfodydd/ymgynghoriadau'r Fforwm Cyffredinol;
    c) Ymgynghori y tu allan i gyfarfodydd y Fforwm.
- Y nifer o bobl ifanc sydd wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant 'Pobl Ifanc yn Dweud'.
- Y bobl ifanc sydd yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at yr agenda Cymru Ifanc/Young Wales.
- Y nifer o argymhellion gan MTBWYF a dderbyniwyd ac y gweithredwyd arnynt drwy unrhyw ymgynghoriadau.

**Er Gwybodaeth:**

Mae Rhoi Hawl i Bob Plentyn a Pherson Ifanc i Gael ei Weld *a'i* Glywed yn rhywbeth mae Cabinet Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful (MTBWYF) yn parhau i yrru ymlaen fel rhan o agenda strategol ehangach. Fel rhan o agenda Cyfranogiad yr SIP, dylai pobl ifanc fod yn rhan o'r broses o lunio gweithgarwch perthnasol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn caniatáu'r LSB i gadarnhau ei ymrwymiad nid yn unig i hyrwyddo hawliau Plant a Phobl Ifanc ond hefyd yn cydnabod y berthynas rhwng hawliau a chyfrifoldebau.

Mae'r agenda ar gyfranogi yn yr SIP yn ymwneud â gwaith y MTBWYF, ac mae eu Cabinet yn ymrwymedig i hyrwyddo lleisiau pobl ifanc; cynyddu niferoedd ac aelodaeth

Fforwm Ieuenctid y Fwrdeistref Sirol a'r graddau y bydd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn materion sy'n effeithio ar eu bywydau.

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 2: Sicrhau fod pobl ym Merthyr Tudful yn elwa ar economi gref, gynaliadwy ac amrywiol.** |
|---|
| **Beth yw ystyr hyn?**<br>Byddwn yn creu ac yn cynnal amgylchedd lle mae oedolion, pobl ifanc a theuluoedd yn cael mynediad at ystod o gyfleoedd dysgu a chyflogaeth sydd yn berthnasol i'w anghenion ac anghenion yr economi leol. Bydd hyn yn cefnogi cynnydd yn nifer y cyfleoedd cyflogaeth newydd a gynhyrchir; gostyngiad yn y ganran o'r boblogaeth sydd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a gostyngiad yn nifer yr aelwydydd di waith yn yr ardal. |

- Cyfanswm y mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth.
- Y ganran o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.
- Canran y boblogaeth o oedran gweithio (ac eithrio myfyrwyr) sydd yn economaidd anweithgar.
- Y ganran o'r boblogaeth oedran gweithio sydd wedi eu haddysgu i NVQ lefel 2 ac uwch.
- Canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n derbyn buddiannau allan o waith (prawf modd) ar 31 Awst.
- Y ganran o ddisgyblion blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Y ganran o blant oedd mewn gofal yn flaenorol sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Er Gwybodaeth:**

Mae'r ddibyniaeth ryngasiantaethol rhwng Cyflogadwyedd a Datblygu Economaidd wedi dod yn fwy amlwg dros y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, wrth edrych ymlaen at 2015/2016, mae'r meysydd blaenoriaeth SIP hyn wedi'u cyfuno'n un cerdyn adroddiad. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i greu ymyriadau pwrpasol sy'n cefnogi unigolion i gyflawni eu nodau a sefydliadau partner i ddarparu datrysiadau wedi'u targedu i faterion lleol.

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 3:** Sicrhau fod pobl sydd yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn cael eu cefnogi i fwynhau bywyd iachach ac o ansawdd gwell. |
|---|
| **Beth yw ystyr hyn?**<br>• Byddwn yn hyrwyddo dull cadarnhaol a grymuso i heneiddio’n dda er mwyn helpu pobl hŷn i fyw bywydau hirach, iachach, mwy egnïol a hapusach.<br>• Yr ydym am i bobl hŷn fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain cyn hired â phosibl, gan helpu'r rhai sy'n mynd yn sâl, yn fregus neu'n agored i niwed i gael y gofal a'r cymorth sydd ei angen, pan mae ei angen arnynt, yn y ffordd y maen nhw ei eisiau.<br>• Bydd teuluoedd, yn enwedig y rheiny sydd mewn tlodi, yn cael cefnogaeth drwy raglenni atal ac ymyrraeth gynnar, sydd wedi’u dylunio i dynnu cymaint o blant ag sydd yn bosibl allan o dlodi. Bydd llai o anghydraddoldebau a bydd canlyniadau’n gwella ar gyfer y plant tlotaf drwy gefnogi teuluoedd yn well.<br>• Byddwn yn lleihau’r anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r rhai tlotaf gyda ffocws ar gefnogi teuluoedd er mwyn cyflawni gwell canlyniadau.<br>• Byddwn yn edrych ar ôl y plant a’r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt deulu diogel neu ofalwr arall sy’n berthynas yn unig a phan fydd plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gennym byddwn yn sicrhau bod arfer o ansawdd uchel o ran bod yn barhaol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol. |

- Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd (dyddiol, achlysurol)
- Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful sy'n ysmygu, yn yr asesiad cychwynnol (fel arfer 10 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd)
- Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful a roddodd y gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd (wedi'i fesur 36 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd)
- Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu’n ordew.
- Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod yn ordew (BMI 30+)
- Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful gyda BMI o 30+ yn yr asesiad cychwynnol (fel arfer 10 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd)
- Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful gyda BMI o 30+ sy'n ennill y pwysau sy’n cael ei argymell yn ystod beichiogrwydd (5 9kg, wedi’u fesur 36 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd)
- Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod wedi bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 5 x 30 munud yn yr wythnos ddiwethaf
- Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd na wnaethant gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch corfforol yn yr wythnos ddiwethaf
- Canran y disgyblion ym Merthyr Tudful "wedi gwirioni ar chwaraeon"
- Canran y plant ym Merthyr Tudful rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew
- Canran y plant ym Merthyr Tudful rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd yn ordew
- Canran yr oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir.
- Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi gor yfed mewn pyliau'r wythnos flaenorol.
- Cyfradd y babanod â phwysau geni ysgafn wedi tymor llawn (37+ wythnos o gyfnod beichiogrwydd)
- Cyfradd beichiogi o dan 18 mlwydd oed fesul 100,000 o ferched
- Canran y plant yn eu lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygu yn 3 mlwydd oed.
- Canran y teuluoedd sy’n adrodd am ymyriad llwyddiannus o ganlyniad i’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf pan gafodd ei gau.
- Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Canran y bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal y mae’r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac y mae’n hysbys eu bod mewn llety addas, nad yw’n llety brys yn 19 mlwydd oed.
- Canran y bobl sy'n gallu byw yn annibynnol

- Oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 mlwydd oed neu drosodd
- Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion pan fydd y risg wedi ei rheoli.

**Er Gwybodaeth:**

Er bod disgwyliad oes ym Merthyr Tudful yn cynyddu, fel y mae ledled Cymru, nid yw'r fantais hon yn gyfartal ar draws ein cymuned. Ceir bylchau rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig mewn disgwyliad oes, disgwyliad oes iach a disgwyliad oes heb anabledd. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn anghyfiawn ac yn annheg, ac mae LSB Merthyr wedi ymrwymo i leihau'r anghydraddoldebau hyn drwy ddarparu'r anogaeth a'r gefnogaeth i bobl fydd yn eu helpu i ffynnu ac osgoi iechyd gwael.

Mae tystiolaeth sylweddol i ddangos y gall mabwysiadu pum ymddygiad iach arwain at welliannau mewn disgwyliad oes ac ansawdd bywyd. Mae'r pum ymddygiad iach hyn yn un o flaenoriaethau allweddol LSB Merthyr wrth helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a hybu lles. Dyma restr o'r rhain

- Gweithgarwch corfforol e.e. hanner awr yn cerdded bob dydd
- Peidio ysmygu
- Cynnal pwysau iach (BMI 18 25)
- Bwyta diet yn seiliedig ar blanhigion pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau yn ddyddiol
- Yfed ychydig o alcohol yn unig h.y. fel yn y canllawiau.

Mae'n rhaid dechrau mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar ddechrau bywyd. Mae tystiolaeth yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng babanod â phwysau geni isel ac amddifadedd economaidd gymdeithasol. Mae cyfraddau pwysau geni isel ym Merthyr Tudful wedi cynyddu mewn blynyddoedd diweddar i 7.2% o fabanod o'i gymharu â 5.1% ar gyfer Cymru. Yn lleol rydym yn gwybod mai ysmygu yn ystod beichiogrwydd a gordewdra yw'r ffactorau risg mwyaf.

Ffactor arall mewn anghydraddoldebau yw merched yn eu harddegau yn beichiogi. Mae pobl ifanc yn aml yn gadael yr ysgol ac mae babanod yn cael eu geni i dlodi ac maen nhw ddwywaith yn fwy tebygol o ddod yn rhieni yn eu harddegau eu hunain. Mae torri'r cylch hwn yn allweddol i bobl ifanc gyflawni eu potensial.

Mae SIP Merthyr Tudful yn canolbwyntio ar 4 canlyniad â blaenoriaeth ac o dan bob canlyniad, mae partneriaeth wedi gosod gweithgareddau a fydd yn ceisio sicrhau fod y rhain yn cael eu bodloni. Mae rhai o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio a byddant yn cael eu cyflwyno drwy strategaethau/ rhaglenni gwaith cyfredol. Dyma'r achos am Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol;

Bydd y maes blaenoriaeth hwn nawr yn cael ei gyflawni drwy'r Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl (http://gov.wales/docs/dhss/publications/121031tmhfinalen.pdf). Er mwyn sicrhau fod yr LSB yn derbyn y wybodaeth lawn am ddatblygiadau yn y maes hwn; bydd Partneriaeth Law yn Llawn at Iechyd Meddwl yn cael ei gwahodd i roi diweddariadau i aelodau'r LSB.

Mae'r Flaenoriaeth SIP sy'n gysylltiedig â 'Hyrwyddo Annibyniaeth' yn cydnabod pwysigrwydd pobl yn gallu cymryd rhan yn llawn mewn bywyd ac i barhau i fod mor egnïol ac annibynnol cyn hired â phosibl. Fodd bynnag, os bydd pobl yn mynd yn sâl neu'n agored i niwed, rhaid iddynt gael cefnogaeth a rhaid i'w hanghenion gael eu diwallu'n effeithiol.

Yn y gorffennol, efallai fod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol wedi datblygu diwylliant o ddibynnu a gorddibynnu ar wasanaethau yn anfwriadol. Yn rhy aml, mae gwasanaethau'n ymateb i argyfwng yn hytrach na mynd ati'n rhagweithiol i atal yr argyfwng yn y lle cyntaf. Dylem ganolbwyntio ar yr hyn y gall pobl o bob oed ei wneud, gan roi mwy o reolaeth dros eu bywydau drwy hyrwyddo a chefnogi eu hannibyniaeth.

Yn ystod 2015/16, byddwn yn gwneud hyn yn benodol drwy flaenoriaethu gwaith angenrheidiol i fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (SSWB). Fel rhan o weithrediad Deddf SSWB (Cymru); mae ffrwd waith rhanbarthol sydd yn canolbwyntio ar ganlyniad y fframwaith a'r mesurau cyfatebol sydd wedi'u cynnwys ynddo. Mae'r gwaith hwn yn parhau a bydd phan fydd y mesurau meintiol ac ansoddol wedi'u cadarnhau byddant yn disodli'r rhai cyfredol fel bo'r angen.

Bydd y Ddeddf yn helpu i hyrwyddo annibyniaeth drwy ganolbwyntio ar:

- **Bobl** rhoi unigolyn a'i anghenion wrth wraidd eu gofal, rhoi llais a rheolaeth iddynt gyflawni'r canlyniadau mae'r unigolyn eisiau;
- **Lles** cefnogi pobl i gyflawni eu lles eu hunain gyda gwell mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth, mewn ffordd y gallant ei ddefnyddio i helpu i wneud dewisiadau da am eu llwybr eu hunain at les;
- **Ymyrryd yn gynharach** – cynyddu gwasanaethau ataliol a gwneud y mwyaf o annibyniaeth pob person, gan eu cysylltu â'u cymunedau er mwyn lleihau neu oedi eu dibyniaeth ar ofal cymdeithasol ac ymyriadau iechyd mwy arbenigol;
- **Adeiladu ar gryfderau a gallu pob person i fanteisio i'r eithaf ar eu hannibyniaeth.** Rôl y gwasanaethau statudol yw ategu gallu'r unigolyn a'r teulu i ofalu a gallu'r gymuned i gefnogi ond hefyd sicrhau bod person yn cael y cymorth ychwanegol sydd angen arno, lle na all fel arall gyflawni ei ganlyniadau lles;
- **Integreiddio -** modelau gofal mwy effeithiol ac wedi'u hintegreiddio'n well sy'n darparu amrywiaeth mwy ymatebol o wasanaethau. Lle mae rhywun angen cefnogaeth ychwanegol, dylid osgoi dyblygu prosesau asesu, fel bod y gefnogaeth gywir yn cael ei roi y tro cyntaf;
- **Cydweithio** atgyfnerthu dyletswyddau cydweithredu rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn ogystal â gwaith partneriaeth gref gydag asiantaethau eraill gan gynnwys y Trydydd Sector; a
- **Gweithlu** gweithlu mwy cymwys gyda sgiliau sy'n galluogi pobl i weithio ar draws ffiniau sefydliadol.

Mae 'Bodloni Anghenion Plant Agored i Niwed' wedi cael ei adolygu a gwnaed y penderfyniad cyfunol i ail ddosbarthu hwn i ddod yn 'Amddiffyn Pobl Agored i Niwed'. Mae Plant mewn Gofal yn rhan annatod o'r agenda Amddiffyn Pobl Agored i Niwed er nad oes unrhyw fesurau wedi'u cynnwys yn yr SIP. Teimlwyd y byddai'n fwy buddiol i ddealltwriaeth yr LSB o'r mater hwn pe byddent yn gweithio'n agosach gyda Bwrdd Diogelu Cwm Taf. I'r perwyl hwn, bydd adroddiad diweddaru ar wahân i'r LSB yn cael ei gyflwyno'n flynyddol gan Gadeirydd Bwrdd Diogelu Cwm Taf a chyfarwyddwr Gwasanaethu Cymdeithasol MTCBC.

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 4:**<br>Sicrhau fod pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i weithio, byw a chwarae ynddo ac i ymweld ag o. |
| --- |
| **Beth yw ystyr hyn?**<br>• Byddwn yn creu amgylchedd lle mae cymunedau Merthyr Tudful yn teimlo'n ddiogel a lleihau canfyddiad ac ofn pobl o drosedd.<br>• Byddwn yn darparu tai fforddiadwy, ynni effeithlon, fforddiadwy mewn amgylchedd diogel gyda chysylltiadau cryf i wasanaethau cymunedol lleol.<br>• Byddwn yn datblygu ac yn dylunio amgylcheddau sy'n gwella cymunedau lleol ac yn sicrhau perchnogaeth leol.<br>• Mae pobl yn cael eu cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag cam drin ac esgeulustod |

- Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu.
- Lleihau canfyddiad pobl o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel problem yn eu hardal.
- Lleihau lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Canran y buddiolwyr* sy'n adrodd am welliant mewn ansawdd bywyd/lles.
- Canran y buddiolwyr* sy'n adrodd am deimlo'n fwy diogel
- Canran y canlyniadau llwyddiannus yn y Llysoedd Trais Domestig Arbenigol.
- Pobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol.
- Mae pobl yn yr ardal leol o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd.
- Mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.
- Lefelau troseddu cyffredinol
- Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.
- Canran yr holl aelwydydd digartref posibl y llwyddwyd i atal digartrefedd iddynt am o leiaf 6 mis.
- Canran y bobl ifanc sy'n troseddu am y tro cyntaf gyda chanlyniad sylweddol rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn gynhwysol.
- Canran y bobl ifanc sy'n troseddu fwy nag unwaith gyda chanlyniad sylweddol rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn gynhwysol.

* Buddiolwyr = pobl sydd yn derbyn cefnogaeth cam drin domestig arbenigol.

**Er Gwybodaeth:**

Fel y nodwyd eisoes, mae SIP Merthyr Tudful yn canolbwyntio ar 4 canlyniad â blaenoriaeth ac o dan bob canlyniad mae partneriaeth wedi gosod gweithgareddau a fydd yn ceisio sicrhau fod y rhain yn cael eu bodloni. Mae rhai o'r gweithgareddau wedi'u cynllunio a byddant yn cael eu cyflwyno drwy strategaethau/ rhaglenni gwaith cyfredol. Mae hyn yn wir ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a Diogelu Pobl Agored i Niwed a Cham drin Domestig.

Bydd Camddefnyddio Sylweddau yn cael ei gyflawni drwy Strategaeth Bwrdd Cynllunio'r Ardal. Er mwyn sicrhau fod yr LSB yn derbyn y wybodaeth lawn am ddatblygiadau yn y maes hwn; bydd cynrychiolydd o Fwrdd Cynllunio Ardal Cwm Taf yn cael ei wahodd i roi diweddariadau i aelodau'r LSB. Gellir gweld Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru yma: <http://gov.wales/dsjlg/publications/commmunitysafety/strategy/strategye.pdf?lang=en>

Mae'r sefydliadau sy'n aelodau o'r LSB yn cytuno mai gweithio'n agos gyda'i gilydd i ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yw'r brif flaenoriaeth.

Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn effeithio'n sylweddol ar sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi unigolion ac i atal niwed, ond bydd hefyd yn atgyfnerthu ein dyletswydd i weithredu er mwyn amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl.

Rhoddir gwybod am berfformiad mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion mewn perygl i Fwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (CTSCB) a Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf (CTSAB). Eu dyletswydd yw dal yr asiantaethau partner yn gyfrifol mewn perthynas â diogelu.

Bydd rhoi gwybod am berfformiad yn y dyfodol yn defnyddio gwaith y Byrddau wrth gyflawni ei ganlyniadau i sicrhau fod plant ac oedolion mewn perygl ym Merthyr Tudful yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ganlyniadau y gellir eu defnyddio o'r data sydd yn deillio o Hwb Diogelu Amlasiantaethol Cwm Taf a gomisiynwyd ac a ddatblygwyd gan y ddau Fwrdd Diogelu.

Nodwyd fod nifer o Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol hefyd yn aelodau o'r Bwrdd Diogelu, ac mewn adroddiadau yn y dyfodol bydd yr LSB yn ceisio cyflawni adrodd gwell yn erbyn canlyniadau sy'n lleihau dyblygu ond hefyd yn amlygu'r wybodaeth allweddol mae'r LSB ei angen er mwyn gwneud penderfyniadau effeithiol i ddatrys anawsterau neu wneud gwelliannau.

Bydd mesurau cysylltiedig â Diogelu Plant Agored i Niwed oedd wedi'u cynnwys yn yr SIP o'r blaen nawr yn cael eu cyflawni drwy'r Byrddau Diogelu (Plant ac Oedolion). Er mwyn sicrhau fod yr LSB yn derbyn y wybodaeth lawn am ddatblygiadau yn y maes hwn; bydd Cadeirydd Byrddau Diogelu Cwm Taf yn cael ei wahodd i roi diweddariadau i aelodau'r LSB.

Cam drin domestig yw un o feysydd allweddol angen ym Merthyr Tudful, ac mae'n effeithio ar y 4 canlyniad â blaenoriaeth yn yr SIP. At hynny mae 'Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015' yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn gadarn i fynd i'r afael â'r mater hwn ar flaen y gad. I sicrhau bod aelodau o LSB Merthyr Tudful yn cael y wybodaeth lawn am ddatblygiadau a chwmpas y gwaith sy'n cael ei wneud i roi sylw i'r mater hwn bob amser; bydd cynrychiolydd o Fwrdd Gweithredol Fforwm Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf (SVDAF) yn cael ei wahodd i gyflwyno diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun cyflawni'r SVDAF.

I ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr LSB ymhellach am waith y Comisiynydd Heddlu a Throseddu (PCC); bydd cynrychiolydd o Swyddfa'r PCC hefyd yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod LSB Merthyr Tudful i gynnig diweddariad blynyddol ar waith y PCC a'i dîm wrth gyflwyno eu cynllun strategol.

**Deddfwriaeth**

Ers cychwyn yr SIP, mae dau ddarn newydd o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â Chanlyniad â Blaenoriaeth 4 wedi'u pasio:

> Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/domestic abuse/?lang=en; a
> Deddf Tai (Cymru) http://gov.wales/legislation/programme/assemblybills/housing/?lang=en

**Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Daeth Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gyfraith ar 29 Ebrill 2015. Pwrpas y Ddeddf yw gwella:

a) trefniadau ar gyfer atal trais yn seiliedig ar ryw, cam drin domestig a thrais rhywiol;

b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais yn seiliedig ar ryw, cam drin domestig a thrais rhywiol; a
c) chefnogaeth i bobl sydd wedi'u heffeithio gan drais yn seiliedig ar ryw, cam drin domestig a thrais rhywiol.

Bydd y Ddeddf yn gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i drais yn erbyn menywod, cam drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n darparu ffocws strategol ac yn sicrhau ystyriaeth gyson o ddulliau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth ddarparu gwasanaethau.

Mae'r manteision o ddarparu ymyriadau ataliol a chymorth i dorri'r cylch o gam drin ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn amlochrog. Mae cael amgylchedd byw diogel yn angen dynol sylfaenol sy'n sail i'n gallu i fyw bywydau iach a chynhyrchiol.

**Tai**

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol tai yng Nghymru. Y nod yn y pen draw yw dyfodol lle mae gan bawb gartref y gallant ei fforddio a lle nad yw digartrefedd yn bodoli. Bydd cartrefi mewn cyflwr da ac yn bodloni'r safonau perthnasol ar gyfer diogelwch, dyluniad, ansawdd ac effeithlonrwydd ynni.

Datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Llywodraeth Cymru, ac mae tai yn chwarae rôl hollbwysig o ran rhoi'r egwyddor hon ar waith.
Mae deddf gyntaf erioed Cymru yn ceisio gwella cyflenwad, ansawdd a safonau tai yng Nghymru, a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth i:

(i) Wella'r sector rhentu preifat;
(ii) Atal digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf a gwella'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n mynd yn ddigartref; a
(iii) Rhoi terfyn ar ddigartrefedd teuluol erbyn 2019.

Mae manteision buddsoddi mewn cartrefi a gwasanaethau cysylltiedig yn ymestyn ymhell y tu hwnt i roi to uwch ben rhywun. Mae cartref boddhaol y gall pobl ei fforddio yn hanfodol i'w gallu i fyw bywydau iach a chynhyrchiol mewn cymunedau diogel, cryf, cynhwysol a theg. Mae'n rhoi'r dechrau gorau posibl i fywydau plant ac yn rhoi'r cyfle iddynt wireddu eu llawn botensial. Gall cartrefi da hefyd leihau allyriadau carbon deuocsid, sydd yn gallu helpu wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sydd yn enghraifft o arfer datblygu cynaliadwy

Mae cartrefi y gall pobl eu fforddio yn hanfodol i'r nodau o leihau tlodi a chynyddu cydraddoldeb.

## ** NEWYDD - MEYSYDD DATBLYGU**

**Bioamrywiaeth**

Yn ystod 2015/16; bydd LSB Merthyr Tudful yn ymgymryd ag archwilio Bioamrywiaeth ymhellach a sut mae'n cysylltu â'r canlyniadau y cytunwyd arnynt yn yr SIP. Er nad oedd wedi'i gynnwys yn benodol yn yr SIP pan gafodd ei ddrafftio i ddechrau yn 2013, drwy'r broses adolygu SIP, daeth rôl Bioamrywiaeth wrth gyflawni effeithiau cadarnhaol i'r gymuned yn amlwg iawn, fel gwnaeth y cyfle i weithio mewn partneriaeth fwy sylweddol yn y maes hwn.

Ar hyn o bryd mae'r defnydd o amgylchedd naturiol lleol a'i ddatblygiad yn sylfaenol iawn. Bydd cydweithio mwy gyda phartneriaid yr SIP yn helpu i wella'r defnydd sylfaenol hwn, tra bydd hefyd yn cyflymu cyfradd y gweithgarwch gwella sydd ei angen i gyflawni'r canlyniadau yn yr SIP (e.e.)

| | **Cefnogi** | **Maes yn yr SIP** |
|---|---|---|
| Bioamrywiaeth | Plant Mewn Gofal | Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed |
| | Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Cymunedau mwy Diogel, Integredig a Chydlynol |
| | Gweithgarwch Corfforol | Ffyrdd Iach o Fyw/Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol; |

Mae cydweithwyr mewn Bioamrywiaeth yn defnyddio technoleg mapio gofodol GIS i lywio Strategaeth Mannau Agored MTCBC. Yn y dyfodol gellid defnyddio'r dechnoleg hon i helpu'r LSB flaenoriaethu adnoddau i'r ardaloedd/cymunedau mwyaf anghenus drwy osod tystiolaeth ar fap i greu darlun cynhwysfawr o angen. Gall y dystiolaeth hon gynnwys data partneriaeth (e.e. iechyd, diogelwch cymunedol, tân, mannau agored) ynghyd â data demograffig (e.e. poblogaeth, tlodi) a bydd yn rhoi'r teclynnau angenrheidiol i'r LSB droi tystiolaeth yn wybodaeth ddefnyddiol a fydd yn sbardun ar gyfer camau effeithiol.

Mae nifer o brosiectau peilot a blasu a gyflwynwyd yn lleol sydd wedi canolbwyntio ar ddefnyddio'r amgylchedd i wella anghenion cymdeithasol, iechyd, addysg a'r gymuned yn cefnogi prosiectau cenedlaethol a rhyngwladol lle mae tystiolaeth eu bod yn effeithio ar y meysydd hyn mewn modd cost effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau gyda:

- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion
- Cynhwysiant Ieuenctid
- Gwasanaethau Gwastraff
- Gwasanaethau Prawf
- Gofalwyr Ifanc Barnardos
- Iechyd Amgylcheddol
- Tai
- Ysgolion a Cholegau
- Cymunedau'n Gyntaf
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Elusennau Iechyd Meddwl

**Bioamrywiaeth a Datblygu Cynaliadwy**
Mae'r amgylchedd yn un o dri 'piler' Datblygu Cynaliadwy (yr egwyddor sylfaenol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol); ac yn un o'r tri ffactor iechyd ynghyd â nodweddion personol a chymdeithasol/economaidd (fel y diffinnir gan Sefydliadau Iechyd y Byd).

**Bioamrywiaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae nifer o ddeddfau deddfwriaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus a'r holl wasanaethau a ddarperir ystyried yr amgylchedd yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol; y mwyaf diweddar yw Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan fod 'Rheoli adnoddau naturiol yn golygu rheoli ein hamgylchedd naturiol mewn ffordd unedig sy'n cyflawni canlyniadau gwirioneddol ar gyfer yr amgylchedd, pobl, yr economi a'n cymunedau'.

**Bioamrywiaeth ac Iechyd**

Mae tystiolaeth fod defnyddio'r amgylchedd naturiol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl a chorfforol a lles emosiynol; er bod yr effeithiau mwyaf fel arfer yn rai ataliol mae tystiolaeth hefyd fod effeithiau cyfrannol ar leihau symptomau ac achosion iechyd mwy difrifol ac aciwt.

Mae prosiect 'Cynefin' Llywodraeth Cymru ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gydag Iechyd y Cyhoedd Cymru/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar hyn o bryd yn targedu ardal un meddyg teulu fel cynllun peilot i gefnogi a gwerthuso atgyfeiriadau i gynyddu'r defnydd o'r amgylchedd lleol ar gyfer manteision iechyd, gan ddefnyddio data o'r Strategaeth Mannau Agored.

Ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn hanesyddol mae diffyg ystyriaeth/ffocws wedi bod o ran yr amgylchedd naturiol o ran effeithiau iechyd ar y boblogaeth leol ac yn fwy cyffredinol o ran gwerth nad yw'n economaidd a defnydd gan gymunedau lleol. Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol yn rhad ac am ddim i'r trigolion, mae ganddo'r capasiti i fodloni'r cynnydd sylweddol mewn defnydd ac mae llai o berygl o stigma cymdeithasol a rhwystrau seicolegol eraill na nifer o weithgareddau hamdden ffurfiol (canolfannau hamdden, clybiau chwaraeon ac ati.) Mae ymchwil cynnar yn dangos yn amlwg fod agosrwydd mynediad i fannau agored/naturiol yn hanfodol o ran lefelau defnydd (h.y.) os yw'r mynediad i'r mannau agored/naturiol yn bell yna bydd y diffyg defnydd yn cynyddu'n sylweddol ac yn gyflym.

**Gwasanaethau Integredig a Chomisiynu ar y Cyd**

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgwyliad clir ein bod yn datblygu model o wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig sy'n cynnal a chynyddu lles ac annibyniaeth pobl.

Yn ystod 2015/2016, byddwn yn symud elfen bwysig o waith ymlaen wrth ddatblygu Datganiad Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau Pobl Hŷn. Mae hyn wedi'i gynhyrchu ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Cyngor Bwrdeistref Sirol RCT, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a'r trydydd sector i ddisodli' strategaethau a'r dulliau ar wahân i bob un o asiantaethau'r sector cyhoeddus.

Mae'r gwaith hwn yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagweithiol, ymatebol a di dor i'n poblogaeth hŷn ac i'r rhai sydd yn eu cefnogi ac yn gofalu amdanynt. Ein bwriad yw alinio'r gweithgareddau comisiynu unigol presennol a gynhelir gan bartneriaid gwahanol yn ddull mwy cydgysylltiedig ac integredig. Bydd contractau/cytundebau lefel gwasanaeth/trefniadau grant cadarn yn sicrhau ein bod yn nodi a chaffael gwasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol fydd yn cyflawni'r canlyniadau lles ac iechyd gorau posibl ac yn darparu gwasanaethau o safon uchel, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau sydd ar gael.

Mae angen i ni hefyd sicrhau fod ein model comisiynu yn gyson â dull gweithredu cymunedol yn seiliedig ar y dinesydd ac archwilio'r ffyrdd gwahanol y gallwn eu defnyddio i ymgymryd â'n swyddogaeth comisiynu gyda'n gilydd yn fwy effeithiol gan gynnwys defnyddio partneriaethau ffurfiol a chyllidebau cyfun.

**Hwb Diogelu Amlasiantaethol Cwm Taf (MASH).**

Datblygwyd Hwb Amlasiantaethol Cwm Taf (MASH) gan asiantaethau sydd yn aelodau o'r byrddau diogelu rhanbarthol.

Mae wedi'i gomisiynu o ganlyniad i ddyhead byrddau diogelu i wella ansawdd ac effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gweithredu ar unwaith i amddiffyn y sawl sydd mewn perygl, a bod gennym wybodaeth o ansawdd uchel i atal perygl drwy ymyrryd yn gynnar.

Crewyd MASH drwy gydweithio agos rhwng awdurdodau lleol; bwrdd iechyd; yr heddlu; y gwasanaeth prawf a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Llwyddodd rheolwyr ac ymarferwyr y sefydliadau hyn i oresgyn y sialensiau oedd yn eu hwynebu wrth wneud yr amcan strategol yn realiti gweithredol.

Dim ond megis dechrau mae'r Hwb, ond mae gwybodaeth am y perfformiad cychwynnol yn dangos tystiolaeth o weithio'n fwy effeithiol a manteision anfwriadol cyd leoli pwyntiau mynediad sefydliadau ar gyfer diogelu. Er enghraifft, ceir achosion lle mae partneriaid wedi gallu gwneud penderfyniad cynnar nad oes angen camau amddiffynnol oherwydd rhannu gwybodaeth yn well, a hefyd ceir enghreifftiau lle mae partneriaid wedi gallu gweithredu ar unwaith i amddiffyn.

Wrth i ni ddatblygu rydym yn cymryd cyfleoedd menter i ddysgu, ac o ganlyniad mae hyn yn arwain at addasu ein prosesau a rhagwelir y bydd yr arloesedd yn dylanwadu ar arfer y tu allan i'r rhanbarth.

**Strategaeth Gwybodaeth LSB**

> *"Dylai Cynllun Integredig Sengl gynnwys Strategaeth Gwybodaeth sy'n nodi sut y bydd partneriaid yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau hynny sydd ar gael er mwyn rhoi'r wybodaeth gywir i'r LSB ar yr amser cywir er mwyn llywio ei waith. Dylai'r wybodaeth sydd ar gael i bartneriaid fod yn adnodd lleol sy'n cael ei rannu i ddadansoddi anghenion, dylunio ymyrraeth a gwerthuso effaith yn barhaus ar draws y Cynllun Integredig Sengl".*

**Cyd-amcanu, Cydymdrechu**
**Llywodraeth Cymru - 2012**

Wrth ymateb i'r gofyniad a nodir yn nodyn canllaw Llywodraeth Cymru 'Cyd amcanu, Cydymdrechu'; paratowyd Strategaeth Gwybodaeth drafft. Cynhaliwyd ymchwil oedd yn cynnwys adolygiad o lenyddiaeth, oedd yn rhoi sylw i lenyddiaeth canllawiau ac ymchwil mewn partneriaeth a LSBau, gweithio mewn partneriaeth a strategaethau gwybodaeth.

Cynhyrchwyd ein Strategaeth Gwybodaeth drafft gydag allbwn rheolaidd gan swyddogion ar draws y bartneriaeth gan Dîm Cefnogi'r LSB. Mae'r ddogfen hon yn cynnig esboniad o pam oedd angen Strategaeth Gwybodaeth tra'n amlinellu sut y gellid defnyddio gwybodaeth gan LSB Merthyr Tudful i ddewis blaenoriaethau. Mae'n egluro rôl partneriaid LSB wrth reoli gwybodaeth ac yn atgyfnerthu'r dull cydweithredol.

Mae'r mewnbwn a gafwyd gan gydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Heddlu De Cymru; Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru yn sicrhau fod yr holl bartneriaid yn cael cyfle i gyfrannu at ei gynnwys ac yn cynnig newidiadau/ ychwanegiadau i adlewyrchu eu gofynion o'u sefydliadau eu hunain. Cafwyd cyngor a chanllawiau hefyd gan adran Diogelwch Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cyflwynwyd drafft terfynol o Strategaeth Gwybodaeth LSB mewn cyfarfod LSB a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2014 a cafodd ei gymeradwyo'n derfynol. Gellir gweld y Wybodaeth yma: (http://www.merthyr.gov.uk/English/CommunityAndLiving/CommunityAdvice/Documents/LSB%20Information%20Strategy%20 (approved%2027.03.14).pdf ).

Mae Strategaeth Gwybodaeth LSB o dan adolygiad ar hyn o bryd a bydd yn cael ei ddosbarthu i Arweinwyr Blaenoriaeth SIP ac aelodau'r LSB yn fuan ar gyfer sylwadau. Bydd y Strategaeth ddiwygiedig arfaethedig yn cyflwyno'r manylion yr ydym wedi eu dysgu mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru); gan nodi lle bydd angen diweddaru/newid trefniadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol wrth symud ymlaen.

**Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful**

Dylid defnyddio gwaith craffu fel modd i wella perfformiad drwy herio sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod gofyniad ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus dynodedig. Bydd craffu ar wasanaethau cyhoeddus ehangach yn rhoi'r 'pŵer' angenrheidiol i aelodau etholedig ddwyn eu Cyngor eu hunain a phartneriaid LSB i gyfrif am eu cyfraniad tuag at gyflwyno'r Cynllun Integredig Sengl.

Mae'n bwysig nodi bod craffu yn canolbwyntio ar berfformiad yr LSB yn gyffredinol yn hytrach na chanolbwyntio ar sefydliadau unigol sy'n aelodau o'r LSB. Mae'n canolbwyntio ar y gwerth ychwanegol a ddaw yn sgil gweithio ar y cyd a sut mae hyn yn cyfateb i berfformiad partneriaeth a chanlyniadau poblogaeth.

Yn ystod 2013/14, sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i symud ymlaen gyda datblygu trefniadau craffu priodol ar gyfer LSB Merthyr Tudful.
Paratowyd papur opsiynau; ystyriwyd hwn gan yr LSB cyn symud ymlaen i'r Cyngor Llawn a chytunwyd ar y canlynol:

- Cyfrifoldeb Pwyllgor Craffu'r Prif Weithredwr yw craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful;
- Os bydd achlysur pan fydd Pwyllgor Craffu'r Prif Weithredwr yn tybio y byddai un o'r Pwyllgorau Craffu eraill yn ymdrin â'r pwnc yn well, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu priodol;
- Pan allai dau neu fwy o Bwyllgorau Craffu ymdrin orau gyda mater yn ymwneud â Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful, mae'r opsiwn o Bwyllgorau Craffu ar y Cyd ar gael;
- Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ran Craffu ar Fwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful a sefydlu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Cyd.

Yn dilyn sicrhau cytundeb; cyflwynwyd 4 elfen o raglen gwaith yr LSB i Bwyllgor Craffu'r Prif Weithredwr yn ystod 2014/15:

Trefniadau rheoli perfformiad yn cefnogi datblygiad Cynllun Integredig Sengl Merthyr Tudful;
Strategaeth Ymgysylltu ar y Cyd Cwm Taf;
Strategaeth Gwybodaeth LSB;
Proses Adolygu ac Adroddiad Blynyddol SIP.

Paratowyd adroddiadau a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu cyn y sesiwn craffu. Roedd cynrychiolydd o LSB Merthyr Tudful yn bresennol yn y sesiynau hyn er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. Yna, rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor Craffu gael rhagor o wybodaeth a gofyn cwestiynau ac ymatebodd cynrychiolydd yr LSB i gynnig eglurhad lle bo angen. Ni luniwyd unrhyw argymhellion gan aelodau'r Pwyllgor Craffu fel ymateb i'r 4 diweddariad a roddwyd ar weithgarwch partneriaeth LSB yn ystod 2014 15.

Newidiwyd Strwythur Craffu MTCBC ar gyfer 2015. Mae hyn yn golygu y bydd rhai mân newidiadau yn cael eu gwneud i egwyddorion y cytunwyd arnynt yn ffurfiol. Y prif newid yw y bydd **Pwyllgor Craffu Llywodraethu, Perfformiad, Newid Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol** yn craffu ar yr LSB. Wrth symud ymlaen, bydd yr LSB yn gwneud cais i awgrymu fod unrhyw weithgarwch allweddol sydd ar y cam datblygu/cynllunio yn mynd o flaen y Pwyllgor Craffu er mwyn cael eu barn/awgrymiadau i gynorthwyo'r datblygiad (wrth gwrs byddai hyn yn amodol ar yr LSB yn sicrhau slot craffu ar gynllun gwaith y Pwyllgor perthnasol).

Rôl craffu yw craffu ar y bartneriaeth yn ei chyfanrwydd. Gellir craffu mewn amryw o ffyrdd ar faterion.

- **Datblygu polisïau -** gallai pwyllgorau craffu gynnal adolygiadau craffu manwl sydd yn canolbwyntio ar bwnc pendant sy'n berthnasol yn lleol. Yn aml gwneir hyn drwy ddefnyddio grŵp gorchwyl a gorffen, a fydd yn archwilio tystiolaeth gan amrywiaeth eang o ffynonellau cyn cynhyrchu adroddiad ac argymhellion, yna bydd angen i bartneriaid a/neu brif weithredwr y cyngor ymateb i'r rhain. Gellir dadlau fod y darnau hyn o waith yn cael yr effaith fwyaf ar greu polisïau lleol, a byddwn yn rhoi enghreifftiau ohonynt i chi isod.

- **Cyfrannu at ddatblygiad strategaethau -** os yw'r LSB yn creu strategaeth, cynllun, neu bolisi, gallai fod yn ddefnyddiol i gynnwys proses graffu ar y cam drafft. Gall cynghorwyr roi tystiolaeth werthfawr i gefnogi'r broses drafftio yn enwedig gwybodaeth am y gymuned leol.

- **Dal i gyfrif mewn gwrandawiadau ffurfiol -** dod â chynrychiolwyr mewn o bartneriaethau a'u cwestiynau am eu rolau, eu cyfrifoldebau, a'u gweithgareddau. Dyma'r dull symlaf o graffu i "ddal y bartneriaeth i gyfrif", er bod cyfyngiadau o ran canlyniadau adeiladol a dylai fod yn rhan fechan o'r rhyngweithio rhwng craffu a'r bartneriaeth.

- **Rheoli perfformiad -** archwilio perfformiad y bartneriaeth, gan ddefnyddio cardiau sgorio lefel uchel neu, lle bo'n briodol, data mwy manwl. Bydd y swyddogaethau craffu gorau'n defnyddio hyn fel cyfle i edrych ar berfformiad "drwy eithriad" (a fydd yn amlygu perfformiad arbennig o dda, a pherfformiad arbennig o wael). Gallai hyn olygu fod y pwyllgor yn edrych ar berfformiad arbennig o dda, i weld pa wersi y gellir eu dysgu, ac felly'n rhannu arfer da ar draws yr holl sefydliadau cyhoeddus a'r holl sefydliadau yn y trydydd sector sy'n gweithredu yn yr ardal leol.

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**

Mae Cynllun Datblygu Lleol (LDP) Merthyr Tudful yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn y Fwrdeistref Sirol a'r polisïau i'w rhoi ar waith dros y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2006 a 2021. Mae'r Cynllun Integredig Sengl (SIP) a'r LDP yn ategu ei gilydd, gyda'r LDP yn mynegi'r elfennau hynny o'r cynllun integredig sengl sy'n ymwneud â datblygu a defnyddio tir, mewn termau defnydd tir priodol. Adlewyrchir blaenoriaethau'r SIP hefyd, lle bo'n briodol, yn yr LDP. Er enghraifft, mae nifer o amcanion strategol yr LDP ar hyn o bryd yn adlewyrchu egwyddorion ategol a chanlyniadau blaenoriaeth y Cynllun Integredig Sengl (SIP). Mae'r cysylltiadau yn cael eu dangos yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1**

| **Cynllun Integredig Sengl** | **Cynllun Datblygu Lleol** |
|---|---|
| Gweledigaeth:<br>I atgyfnerthu sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd ac i fod yn fan i fod yn falch ohono lle mae:<br>• Pobl yn dysgu ac yn datblygu sgiliau i wireddu eu dyheadau<br>• Pobl yn byw, yn gweithio ac yn cael bywyd bodlon, iach a diogel<br>• Pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd | Gweledigaeth:<br>Rhwng 2006 a 2021, bydd yr LDP yn sicrhau y bydd datblygiad a defnydd tir ym Merthyr Tudful yn cael ei wneud mewn modd sensitif gan ddilyn dull cyfannol gyda'r cysyniad o gynaliadwyedd yn greiddiol iddo. Yn y modd hwn, uchelgais y Cynllun yw adlewyrchu disgwyliadau'r gymuned i:<br>• hwyluso twf parhaus<br>• hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol<br>• diogelu'r amgylchedd; a,<br>• darparu ansawdd bywyd ardderchog i bawb<br><br>Amcan Strategol 1:<br>I fanteisio ar sefyllfa strategol Merthyr, gan ddatblygu ei rôl fel prif ganolfan masnach, gwasanaeth a chyflogaeth ym Mlaenau'r Cymoedd drwy ganolbwyntio ar ddatblygu ym mhrif dref Merthyr Tudful. |
| Egwyddor sylfaenol:<br>Dysgu am oes. | Prif nod<br>Hwyluso gostyngiad yn lefelau presennol allfudo o'r Fwrdeistref Sirol fel bod lefelau poblogaeth yn sefydlogi erbyn 2011 a sicrhau y cyflawnir cyfnod 10 mlynedd o dwf gwell ar ôl hynny. |
| **Canlyniadau Blaenoriaeth** | **Amcanion strategol (SO)** |
| **Cyfle a dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau a manteisio** | SO8: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a sicrhau cyfle cyfartal drwy leihau'r angen i deithio a darparu |

| | |
|---|---|
| **i'r eithaf ar eu potensial.** | gwell mynediad drwy ddulliau cynaliadwy at gyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau. |
| **Canlyniadau Blaenoriaeth** | **Amcanion strategol (SO)** |
| Elwa ar economi gref, gynaliadwy ac amrywiol. | SO7: Gwella a chreu mwy o amrywiaeth yn yr economi, diogelu swyddi presennol a chreu amrywiaeth o gyfleoedd swyddi newydd mewn modd cynaliadwy. |
| Cefnogi i fwynhau ansawdd bywyd gwell ac iachach. | SO9: Hybu iechyd a lles drwy ddarparu cyfleoedd hygyrch ac amrywiol ar gyfer gweithgareddau hamdden ac adloniant. |
| Mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol, diogel a chynaliadwy i fyw, gweithio, chwarae ynddo ac i ymweld ag o. | SO10: Sicrhau dylunio da o ddatblygiadau newydd a chreu cymunedau mwy diogel.<br>SO6: Darparu anheddau o fathau a meintiau amrywiol, gan gynnwys tai fforddiadwy a thai anghenion arbennig, sy'n cefnogi anghenion y gymuned leol, yn denu trigolion newydd i'r ardal ac yn creu cymunedau cymysg a chymdeithasol cynhwysol.<br>SO8: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a sicrhau cyfle cyfartal drwy leihau'r angen i deithio a darparu gwell mynediad drwy ddulliau cynaliadwy at gyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau. |

Mae darpariaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn golygu ei bod yn hanfodol adolygu'r SIP (cynlluniau Lles lleol) a'r LDP yn y dyfodol i'w datblygu yn seiliedig ar dystiolaeth gyffredinol, i'w llywio gan brosesau asesu cyffredin a'u bod yn ceisio cyflawni amcanion cyffredin.

Er mwyn cyflawni mwy o integreiddio, bydd Arweinydd y Grŵp Polisi a Gweithredu yn rhoi gwybod i'r LSB a Grŵp Llywio'r SIP am y meysydd cyffredin rhwng yr SIP ar LDP, fel sydd wedi'i nodi yn Nhabl 2 (i'w weld dan **Atodiad 3).** At hynny, dylid ystyried gwella integreiddio fframweithiau monitro'r LDP a'r SIP er mwyn datblygu dangosyddion perfformiad cadarn ac osgoi dyblygu diangen. Mae mesurau cyffredin posibl sy'n seiliedig ar fframwaith monitro cyfredol yr LSP hefyd wedi'u cynnwys yn **Atodiad 3 (**Tabl 2).

**Atodiad 1**

| | MAINT | ANSAWDD |
|---|---|---|
| **YMDRECH** | **Cwadrant 1**<br>**(lleiaf** pwysig ar gyfer yr SIP)<br><br>**Faint o wasanaethau wnaethom ni eu cyflwyno?**<br>• Nifer y cleientiaid/cwsmeriaid a wasanaethwyd;<br>• Nifer o weithgareddau/mathau o weithgareddau;<br>• Cynyddu mynediad. | **Cwadrant 2**<br><br>**Pa mor dda wnaethom ni gyflawni?**<br>• Canran y cleientiaid a dderbyniodd gwasanaeth da (*canran y cwsmeriaid bodlon; amseroedd aros cyfartalog*);<br>• Canran y gweithgareddau/swyddogaethau a gyflawnwyd yn dda (*presenoldeb mewn ysgolion, gwaharddiadau tymor penodol*; *plant mewn gofal sydd mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn 19 mlwydd oed*) |
| **EFFAITH** | **Cwadrant 3**<br><br>**Pa mor dda wnaethom ni gyflawni?**<br>• Rhif – sgiliau;<br>• Rhif – agwedd;<br>• Rhif – ymddygiad;<br>• Rhif – amgylchiad. | **Cwadrant 4**<br>**(mwyaf** pwysig ar gyfer yr SIP)<br><br>**Oes unrhyw un yn well eu byd?**<br>• Canran – Sgiliau (e.e.) *canran y plant Dechrau'n Deg 3 mlwydd oed sydd yn cyrraedd eu cerrig milltir datblygiadol/canran y disgyblion prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 yn gynhwysol*<br>• Canran ymddygiad (e.e.) *canran y bobl 45 mlwydd oed a throsodd sydd yn yfed alcohol* |

Mae'r tabl isod yn dangos y newid yn y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn yr SIP ers ei gyflwyno yn 2013.

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 1:** | | |
|---|---|---|
| **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** |
| **Cyrhaeddiad a Sgiliau;** | **Cyrhaeddiad a Sgiliau;** | **Cyrhaeddiad a Sgiliau;** |
| Dangosydd Cyfnod Sylfaen Cyfnod Allweddol 2 a 3. | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen. |
| Dangosydd pwnc craidd, Cyfnod Allweddol 4, Lefel 2 gan gynnwys Saesneg; Cymraeg a Mathemateg. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg; Cymraeg neu Fathemateg. | Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen. |
| Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol cyfatebol. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys Saesneg; Cymraeg neu Fathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (mewn asesiad athro) o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. | Canran y disgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (Lefel 4 neu uwch mewn Cymraeg a Saesneg; Mathemateg a Gwyddoniaeth) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. | Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU A* C mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU A* C mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen. | Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol cyfatebol. |
| Canran y disgyblion sy'n gadael addysg (ysgol) heb gymhwyster ffurfiol. | Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (mewn asesiad athro) o'i gymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. | |
| Canran y dyddiau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol. | Canran y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU A* C mewn Saesneg/Cymraeg a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim. | |
| Canran y bobl ifanc 16 18 mlwydd nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | Canran y disgyblion sy'n gadael addysg gorfodol heb gymhwyster allanol wedi'i gymeradwyo. | |
| **Cyflogadwyedd** | **Cyflogadwyedd** | |
| Canran yr oedolion o oedran gweithio sy'n economaidd weithgar. | Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd â chymwysterau NVQ Lefel 2 neu uwch. | Mae'r Cerdyn Cofnodi Cyflogadwyedd nawr wedi'i gyfuno gyda Cherdyn Cofnodi Datblygiad Busnes ac Economaidd a gellir ei weld dan Ganlyniad Blaenoriaeth 2: Cerdyn Cofnodi Adfywio Cymunedol. |
| Cynnydd mewn poblogaeth oedran gweithio â chymwysterau. | Y ganran o blant oedd mewn gofal yn flaenorol sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 19 mlwydd oed. | |
| Canran y plant o dan 16 mlwydd oed sy'n byw mewn aelwydydd o oedran gweithio gyda neb mewn cyflogaeth. | Nifer yr unigolion a gefnogir gan y Cyngor sy'n mynd ymlaen i ennill cyflogaeth. | |
| Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | Nifer yr oedolion (16 mlwydd oed neu drosodd) a gefnogir gan y Cyngor sy'n ennill cymhwyster NVQ Lefel 2. | |
| Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | Canran y boblogaeth oedran gweithio heb gymwysterau. | |
| Canran y bobl 16 24 mlwydd oed sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) | Canran y plant o dan 16 mlwydd oed sy'n byw mewn aelwydydd o oedran gweithio gyda neb mewn cyflogaeth. | |
| Canran yr aelwydydd di waith ledled Merthyr Tudful. | | |
| **Cyfranogiad** | **Cyfranogiad** | **Cyfranogiad** |
| Nifer yr ysgolion/sefydliadau sydd wedi cytuno ac wedi ymrwymo i'r Addewid Cyfranogiad. | Nifer yr ysgolion/sefydliadau sydd wedi cytuno ac wedi ymrwymo i'r Addewid Cyfranogiad | Canlyniadau o ymgysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n gweithio i blant a phobl ifanc:<br>1) Y nifer sydd wedi cytuno/cofrestru ar gyfer yr Addewid Cyfranogiad;<br>2) Y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant 'Pobl Ifanc yn Dweud';<br>3) Nifer sy'n cynnwys plant a phobl ifanc mewn ymgynghoriadau. |
| Canran y bobl ifanc sydd yn cymryd rhan yn Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful (MTBWYF). | Canran y bobl ifanc sydd yn cymryd rhan yn Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tudful (MTBWYF). | Canran o Aelodau MTBWYF sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau MTBWYF:<br>1) Cyfarfodydd y Cabinet;<br>2) Cyfarfodydd/ymgynghoriadau'r Fforwm Cyffredinol;<br>3) Ymgynghori y tu allan i gyfarfodydd y Fforwm. |
| Nifer y paneli, y byrddau a'r mentrau sy'n cynrychioli pobl ifanc. | Nifer y paneli, y byrddau a'r mentrau sy'n cynrychioli pobl ifanc. | Y nifer o bobl ifanc sydd wedi cael eu hyfforddi i ddarparu hyfforddiant 'Pobl Ifanc yn Dweud'. |
| Nifer y sefydliadau sy'n cyflawni/manteisio ar hyfforddiant Gwobr Nod Barcud Cyfranogiad/Pobl Ifanc yn Dweud. | Nifer y sefydliadau sy'n cyflawni/manteisio ar hyfforddiant Gwobr Nod Barcud Cyfranogiad/Pobl Ifanc yn Dweud. | Y bobl ifanc sydd yn cymryd rhan ac yn cyfrannu at yr agenda Cymru Ifanc/Young Wales. |
| Nifer y bobl ifanc sydd yn eistedd ar y Cynulliad Ieuenctid yng Nghymru. | Nifer y bobl ifanc sydd wedi'u hyfforddi i gyflwyno hyfforddiant Gwobr Nod Barcud Cyfranogiad/Pobl Ifanc yn Dweud. | Y nifer o argymhellion gan MTBWYF a dderbyniwyd ac y gweithredwyd arnynt drwy unrhyw ymgynghoriadau. |
| | Nifer y bobl ifanc sydd yn eistedd ar y Cynulliad Ieuenctid. | |

| | | |
|---|---|---|
| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 2:** | | |
| **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** |
| **Datblygu Busnes ac Economaidd** | **Datblygu Busnes ac Economaidd** | **Adfywio Cymunedol** |
| Nifer y cyflogwyr bach a chanolig (SME) a chwmnïau mwy. | Gwerth Ychwanegol Gros y gweithlu fesul pen o’r boblogaeth sy’n gweithio. | Cyfanswm y mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth. |
| Cynnal twf busnes a mewnfuddsoddiad | Cyflog canolrifol blynyddol (gros) gweithwyr llawn amser. | Y ganran o'r boblogaeth oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. |
| Nifer o swyddi a grëwyd. | Nifer y busnesau newydd yn yr ardal. | Canran y boblogaeth o oedran gweithio (ac eithrio myfyrwyr) sydd yn economaidd anweithgar. |
| Y Gwerth Ychwanegol Gros | Gallu busnesau newydd i oroesi am 3 blynedd. | Y ganran o'r boblogaeth oedran gweithio sydd wedi eu haddysgu i NVQ lefel 2 ac uwch. |
| Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd. | Y cyflenwad o dir ar gyfer tai. | Canran y plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n derbyn buddiannau allan o waith (prawf modd) ar 31 Awst. |
| Lefel incwm. | Cyfanswm y swyddi a grëwyd gan y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. | Y ganran o ddisgyblion blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. |
| | Cyfanswm y swyddi gyda’r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. | Y ganran o blant oedd mewn gofal yn flaenorol sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. |
| | Cyflenwad tir busnes. | |
| | Canran y boblogaeth oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. | |
| | Cyfanswm blynyddol arwynebedd llawr gwag yng Nghanol y Dref. | |
| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 3:** | | |
| **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** |
| **Ffyrdd Iach o Fyw - Ysmygu** | **Ffyrdd Iach o Fyw - Ysmygu** | **Ffyrdd Iach o Fyw** |
| Cyfraddau cyffredinolrwydd ysmygu mewn oedolion. | Cyfraddau cyffredinolrwydd ysmygu mewn oedolion. | Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd (dyddiol, achlysurol). |
| Canran y plant 15 mlwydd oed sydd yn ysmygu bob wythnos. | Canran y plant 15 mlwydd oed sydd yn ysmygu bob wythnos. | Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful sy'n ysmygu, yn yr asesiad cychwynnol (fel arfer 10 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd). |
| Y ganran o fenywod sy’n ysmygu yn ystod beichiogrwydd. | Y ganran o fenywod sy’n ysmygu yn ystod beichiogrwydd. | Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful a roddodd y gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd (wedi'i fesur 36 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd). |
| **Ffyrdd iach o fyw – Gordewdra a Gweithgarwch Corfforol** | **Ffyrdd iach o fyw – Gordewdra a Gweithgarwch Corfforol** | Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu’n ordew. |
| Canran yr oedolion a nododd eu bod yn bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 5 x 30 munud yn yr wythnos ddiwethaf. | Canran yr oedolion a nododd eu bod yn bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 5 x 30 munud yn yr wythnos ddiwethaf. | Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a nododd eu bod yn ordew (BMI 30+). |
| Canran yr oedolion a nododd eu bod wedi bwyta 5 cyfran neu fwy o ffrwythau/llysiau'r diwrnod blaenorol. | Canran yr oedolion a nododd eu bod wedi bwyta 5 cyfran neu fwy o ffrwythau/llysiau'r diwrnod blaenorol. | Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful gyda BMI o 30+ yn yr asesiad cychwynnol (fel arfer 10 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd). |
| Canran y plant a’r bobl ifanc sy’n bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 60 munud o ddwyster cymedrol. | Canran y plant a’r bobl ifanc sy’n bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 60 munud o ddwyster cymedrol. | Canran y merched beichiog ym Merthyr Tudful gyda BMI o 30+ sy'n ennill y pwysau sy’n cael ei argymell yn ystod beichiogrwydd (5 9kg, 36 wythnos i mewn i’r cyfnod beichiogrwydd) |
| Gweithgarwch corfforol ar 5 neu fwy o ddyddiau. | Gweithgarwch corfforol ar 5 neu fwy o ddyddiau. | Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a nododd eu bod wedi bodloni’r canllawiau gweithgarwch corfforol o 5 x 30 munud yn yr wythnos ddiwethaf. |
| Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu’n ordew ym Merthyr Tudful. | Canran yr oedolion a ddywedodd eu bod dros eu pwysau neu’n ordew ym Merthyr Tudful. | Canran yr oedolion ym Merthyr Tudful a ddywedodd na wnaethant gymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch corfforol yn yr wythnos ddiwethaf. |
| Canran y plant rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew. | Canran y plant rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew. | Canran y disgyblion ym Merthyr Tudful sydd "wedi gwirioni ar chwaraeon". |
| | | Canran y plant ym Merthyr Tudful rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew. |
| **Ffyrdd Iach o Fyw - Iechyd Rhywiol** | **Ffyrdd Iach o Fyw - Iechyd Rhywiol** | Canran y plant ym Merthyr Tudful rhwng 4 a 5 mlwydd oed sydd yn ordew. |
| Rhagnodi’r Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (LARC). | Rhagnodi’r Dull Atal Cenhedlu Gwrthdroadwy Hirdymor (LARC). | Canran yr oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. |
| Defnydd o gondomau drwy'r Cynllun Cerdyn Condom. | Defnydd o gondomau drwy'r Cynllun Cerdyn Condom. | Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi gor yfed mewn pyliau yr wythnos flaenorol. |
| Cyfraddau beichiogi yn yr arddegau | Cyfraddau beichiogi yn yr arddegau | Cyfradd y babanod â phwysau geni ysgafn wedi tymor llawn (37+ wythnos o gyfnod beichiogrwydd). |
| Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. | Heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. | Cyfradd beichiogi o dan 18 mlwydd oed fesul 100,000 o ferched. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfradd y babanod gyda phwysau geni isel. | Cyfradd y babanod gyda phwysau geni isel. | |
| Cyfradd y babanod cynamserol. | Cyfradd y babanod cynamserol. | |

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 3:** | | |
|---|---|---|
| **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** |
| **Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol (parhad)** | **Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol (parhad)** | |
| Canran y bobl ifanc sydd yn nodi sgôr o 6 neu uwch o ran boddhad bywyd yn yr arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant oedran Ysgol. | Canran y bobl ifanc sydd yn nodi sgôr o 6 neu uwch o ran boddhad bywyd yn yr arolwg Ymddygiad Iechyd mewn Plant oedran Ysgol. | *Bydd y maes blaenoriaeth hwn yn cael ei gyflawni'n llawn drwy Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl gyda LSB Merthyr Tudful yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf gan Bartneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.* |
| Canran yr oedolion (16 mlwydd oed a throsodd) a hunan gofnododd les ac iechyd meddwl. | Canran yr oedolion (16 mlwydd oed a throsodd) a hunan gofnododd les ac iechyd meddwl. | |
| Canran y bobl sy'n ymateb i arolwg Viewpoint yn nodi eu bod yn hapus neu'n obeithiol. | Canran y bobl sy'n ymateb i arolwg Viewpoint yn nodi eu bod yn hapus neu'n obeithiol. | |
| Nifer y meddygfeydd sy'n gallu darparu asesiadau arbenigol ac ymyriadau fesul cam i gefnogi cleifion sy'n dioddef o salwch meddwl 'ysgafn i gymedrol'. | Nifer y meddygfeydd sy'n gallu darparu asesiadau arbenigol ac ymyriadau fesul cam i gefnogi cleifion sy'n dioddef o salwch meddwl 'ysgafn i gymedrol'. | |
| Canran yr oedolion sydd yn rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a thriniaeth. | Canran yr oedolion sydd yn rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a thriniaeth. | |
| Canran yr oedolion (16+ mlwydd oed) sy'n dweud eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl. | | |
| **Hybu Annibyniaeth** | **Hybu Annibyniaeth** | **Hybu Annibyniaeth** |
| Nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi i aros yn eu cartref eu hunain. | Nifer y bobl sy'n cael cynnig/sydd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol. | Canran y bobl sy'n gallu byw yn annibynnol. |
| Nifer y bobl sy'n cael cynnig/sydd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol. | Canran y boblogaeth o oedolion sy'n gallu byw yn annibynnol heb angen pecyn gofal ffurfiol wedi'i drefnu neu ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol. | Oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd yn 75 mlwydd oed neu drosodd. |
| Cyfradd y bobl hŷn (65+ mlwydd oed) sydd yn derbyn cefnogaeth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth. | Canran y gofalwyr oedolion sydd yn cael cynnig asesiad drwy eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn. | Canran yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion pan fydd y risg wedi ei rheoli. |
| Canran y cleientiaid rhwng 1 a 64 mlwydd oed sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn ystod y flwyddyn. | Nifer yr asesiadau teleofal a gynigir / gynhelir. | |
| Canran yr oedolion sydd yn rhan o ddatblygu eu cynllun gofal a thriniaeth. | Canran y boblogaeth oedolion na allant fyw'n annibynnol. | |
| Canran y bobl sy'n nodi salwch hirdymor cyfyngol (bob oed a 65+). | Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | |
| Nifer yr ail dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer y rhai 65+ mlwydd oed. | Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 mlwydd oed neu drosodd. | |
| Y gostyngiad yn nifer y derbyniadau uniongyrchol o'r ysbyty i ofal nyrsio neu ofal preswyl. | Nifer y derbyniadau brys i'r ysbyty. | |
| Y gostyngiad yn nifer y derbyniadau i ofal preswyl/nyrsio. | Canran y bobl sy'n nodi salwch hirdymor cyfyngol (bob oed a 65+). | |
| Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth. | Nifer yr ail dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer y rhai 65+ mlwydd oed. | |
| | Y gostyngiad yn nifer y derbyniadau uniongyrchol o'r ysbyty i ofal nyrsio neu ofal preswyl. | |
| | Y gostyngiad yn nifer y derbyniadau i ofal preswyl/nyrsio. | |
| **Diwallu Anghenion Plant Agored i Niwed** | **Diwallu Anghenion Plant Agored i Niwed** | **Amddiffyn Pobl Agored i Niwed** *(Diwallu Anghenion Plant Agored i Niwed gynt)* |
| Y gyfran o gysylltiadau a wnaed i'r gwasanaethau plant sy'n symud ymlaen at atgyfeiriad. | Canran y boblogaeth plant (0 3 mlwydd oed) sy'n derbyn gwasanaeth Dechrau'n Deg. | Canran y plant yn eu lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygu yn 3 mlwydd oed. |
| Cyfran y plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol plant fel 'Plant mewn Angen'. | Canran y plant yn eu lleoliadau Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd eu cerrig milltir datblygu yn 3 mlwydd oed. | Canran y teuluoedd sy'n adrodd am ymyriad llwyddiannus o ganlyniad i'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf pan gafodd ei gau. |
| Nifer yr atgyfeiriadau i'r Tîm Cymorth Dwys i'r Teulu (IFST). | Nifer y plant sy'n elwa ar ddarpariaeth feithrin Dechrau'n Deg. | Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. |
| Nifer y teuluoedd sy'n nodi canlyniadau cadarnhaol o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r gwasanaethau Plant mewn Angen. | Nifer yr atgyfeiriadau i'r Tîm Cymorth Dwys i Deuluoedd (i lefel cyfran gwasanaeth Merthyr Tudful). | Canran y bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â nhw, ac y mae'n hysbys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety brys yn 19 mlwydd oed. |
| Nifer yr adolygiadau o blant mewn angen a gwblhawyd o fewn y canllawiau. | Cyfran y plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol plant fel 'Plant mewn Angen'. | |
| Canran yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau plant sy'n ail atgyfeiriadau o fewn 12 mis. | Nifer y teuluoedd sy'n nodi canlyniadau cadarnhaol o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf. | *Ystyrir Plant mewn Gofal yn rhan annatod o'r agenda Amddiffyn Pobl sy'n Agored i Niwed; fodd bynnag, ceir adroddiad ar wahân ddwywaith y flwyddyn er mwyn sicrhau parhad wrth gyfathrebu am elfennau allweddol Diogelu a Phlant mewn Gofal gyda LSB Merthyr Tudful.* |
| Nifer a chanran y cofrestriadau amddiffyn plant ailadroddus o fewn 2 flynedd. | Cyfran y plant a'r teuluoedd sy'n nodi canlyniadau cadarnhaol o'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn gan y gwasanaethau cymdeithasol. | |
| Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaethau plant. | Lefelau'r rhai sy'n gadael gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. | |
| | Canran y boblogaeth (o dan 18 mlwydd oed) sydd yn Blant Mewn Angen ac mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda nhw. | |
| | Cyfradd y plant y pen o'r boblogaeth sydd mewn gofal. | |
| | Nifer a chanran y cofrestriadau amddiffyn plant ailadroddus o fewn 2 flynedd. | |
| | Cyfanswm y cysylltiadau i'r gwasanaethau plant. | |

| **CANLYNIAD BLAENORIAETH 4:** | | |
|---|---|---|
| **2013-2014** | **2014-2015** | **2015-2016** |
| **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throsedd ac Anhrefn** | **Cymunedau Mwy Diogel** | **Cymunedau mwy Diogel, Integredig a Chydlynol** |
| Nifer y bobl sy'n teimlo'n ddiogel ym Merthyr Tudful. | Nifer y bobl sy'n teimlo'n ddiogel ym Merthyr Tudful. | Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu hardal leol wedi iddi dywyllu. |
| Cyfraddau ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Cyfraddau ymddygiad gwrthgymdeithasol. | Lleihau canfyddiad pobl o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel problem yn eu hardal. |
| Lefelau troseddu cyffredinol. | Lefelau troseddu cyffredinol. | Lleihau lefel ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| Cyfraddau troseddu meddiangar. | Cyfraddau troseddu meddiangar. | Canran y buddiolwyr sy'n adrodd am welliant mewn ansawdd bywyd. |
| Cyfraddau trais. | Cyfraddau trais. | Canran y buddiolwyr sy'n adrodd am deimlo'n fwy diogel. |
| | | Canran y canlyniadau llwyddiannus yn y Llysoedd Trais Domestig Arbenigol. |
| **Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | **Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol** | Pobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol. |
| Nifer y canlyniadau llwyddiannus yn Llys Trais Domestig Arbenigol Merthyr Tudful (SDVC). | Nifer y canlyniadau llwyddiannus yn Llys Trais Domestig Arbenigol Merthyr Tudful (SDVC). | Mae pobl yn yr ardal leol o wahanol gefndiroedd yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd. |
| Nifer y cyflawnwyr sy'n defnyddio ac yn derbyn gwasanaethau effeithiol. | Nifer yr atgyfeiriadau Teulu a MARAC. | Mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth. |
| Nifer yr atgyfeiriadau Teulu a MARAC. | Nifer y plant mewn perygl o gam drin domestig. | Lefelau troseddu cyffredinol. |
| | Nifer o ddigwyddiadau cam drin domestig ailadroddus. | Canran y bobl ifanc sy'n troseddu am y tro cyntaf gyda chanlyniad sylweddol rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn gynhwysol. |
| | Nifer y teuluoedd a dderbyniwyd fel teuluoedd digartref oherwydd cam drin domestig. | Canran y bobl ifanc sy'n troseddu fwy nag unwaith gyda chanlyniad sylweddol rhwng 10 a 17 mlwydd oed yn gynhwysol. |
| **Camddefnyddio Sylweddau** | **Camddefnyddio Sylweddau** | **Camddefnyddio Sylweddau** |
| Canran yr oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. | Canran yr oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. | *Bydd y canlyniad blaenoriaeth hwn nawr yn cael ei gyflawni'n llawn drwy Strategaeth Bwrdd Cynllunio'r Ardal; bydd LSB Merthyr Tudful yn cael y newyddion diweddaraf gan Gadeirydd Bwrdd Cynllunio'r Ardal.* |
| Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi gor yfed mewn pyliau yr wythnos flaenorol. | Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod wedi gor yfed mewn pyliau yr wythnos flaenorol. | |
| Canran y marwolaethau yn ymwneud ag alcohol/cyffuriau. | Canran y marwolaethau yn ymwneud ag alcohol/cyffuriau. | |
| Canran y derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud ag alcohol/cyffuriau. | Canran y derbyniadau i'r ysbyty sy'n ymwneud ag alcohol/cyffuriau. | |
| | Canran y bobl ifanc sy'n troseddu gydag alcohol yn ffactor sy'n cyfrannu. | |
| **Cydlyniant Cymunedol** | **Cydlyniant Cymunedol** | |
| Nifer yr achosion o droseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt. | Nifer y troseddau casineb y rhoddir gwybod amdanynt. | |
| Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn flynyddol yn rhaglen 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'. | Gwella canfyddiad y cyhoedd o gymunedau. | |
| Nifer y bobl sy'n derbyn hyfforddiant cydraddoldeb. | Nifer y cyfranogwyr mewn gweithdai a hyfforddiant sy'n ymwneud â chydraddoldeb a chydlyniant cymunedol. | |
| Nifer yr unigolion sy'n mynychu digwyddiadau cydlyniant. | Nifer y grwpiau lleiafrifol ac unigolion y bydd sefydliadau'n ymgynghori â nhw. | |
| | Defnyddio gwefan Cydlyniant Cymunedol Merthyr Tudful. | |
| **Rheoli Troseddwyr** | **Rheoli Troseddwyr** | |
| Cyfraddau aildroseddu (oedolion). | Cyfraddau aildroseddu (oedolion). | |
| Cyfraddau aildroseddu (ieuenctid). | Cyfraddau aildroseddu (ieuenctid). | |
| **Tai** | **Tai** | **Tai** |
| Nifer y tai a thai fforddiadwy a gwblheir y flwyddyn. | Nifer y tai a thai fforddiadwy a gwblheir y flwyddyn. | Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. |
| Aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | Aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref am 6 mis o leiaf. | Canran yr holl aelwydydd digartref posibl y llwyddwyd i atal digartrefedd iddynt am o leiaf 6 mis. |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. | Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. | |
| Nifer yr aelwydydd a dderbyniwyd fel aelwydydd digartref. | Nifer yr aelwydydd a dderbyniwyd fel aelwydydd digartref. | |
| Eiddo gwag fel canran o gyfanswm y stoc tai. | Eiddo gwag fel canran o gyfanswm y stoc tai. | |
| **Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** | **Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** | **Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** |
| Canran y cynadleddau cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod yn dilyn codi'r drafodaeth strategaeth. | Cynnal canran y cynadleddau cychwynnol a gynhaliwyd o fewn 15 diwrnod yn dilyn codi'r drafodaeth strategaeth. | *Bydd y canlyniad blaenoriaeth hwn nawr yn cael ei gyflawni'n llawn gan Fyrddau Diogelu Cwm Taf (Plant ac Oedolion) gyda LSB Merthyr Tudful yn cael y wybodaeth ddiweddaraf gan Reolwr y Bwrdd Diogelu.* |
| Canran yr Adolygiadau Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn cynnydd mewn amserlenni statudol. | Cynnal canran yr Adolygiadau Amddiffyn Plant a gynhaliwyd o fewn cynnydd mewn amserlenni statudol. | |
| Canran adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol yn ystod cynnydd yn y flwyddyn. | Canran yr atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion gwblhawyd lle mae'r perygl wedi bod yn gynydd a reolir. | |
| Canran yr atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion gwblhawyd lle mae'r perygl wedi bod yn gynydd a reolir. | Nifer y staff rheng flaen sydd wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth diogelu. | |
| Nifer y staff rheng flaen sydd wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth diogelu. | Canran yr ailgofrestriadau plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | |

**Atodiad 3**

## Tabl 2

| SIP - Beth yr ydym am ei gyflawni? | Sut byddwn yn mesur llwyddiant? Dangosyddion ychwanegol ar gyfer targedau LDP Posibl. |
|---|---|
| **Cyrhaeddiad a Sgiliau;**<br>Mae plant, pobl ifanc ac oedolion ym Merthyr Tudful yn cyrraedd eu potensial academaidd ac yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gyfrannu fel dinasyddion cyfrifol at eu datblygiad eu hunain a datblygiad y gymuned ehangach. | Diogelu 100% o gyfleusterau cymunedol llewyrchu o gynigion datblygu sy'n cynnig eu colled. Rhif Mesur sy'n cael ei amddiffyn yn flynyddol. |
| **Cyfranogiad** | Nid oes mesur a awgrymir. |
| **Adfywio Cymunedol**<br><br>Economi cynaliadwy sy'n tyfu ym Merthyr Tudful, gan gynnig ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith o ansawdd. | Hwyluso darpariaeth gofod llawr 3560 metr sgwâr llawr net B1 (diwydiannol ysgafn) yn flynyddol at 2021.<br><br>Hwyluso darpariaeth gofod llawr 3770 metr net B2/B8 (diwydiannol, storio a dosbarthu) yn flynyddol at 2021.<br><br>Hwyluso darparu 300 o swyddi ychwanegol net flynyddol at 2021.<br><br>Diogelu Parc Busnes Rhydycar a'r Maes Parcio yn Ffatri Hoover ar gyfer defnydd B1 a defnyddiau ategol priodol tan 2021.<br><br>Gwarchod y Pengarnddu, Ystâd Ddiwydiannol Pant, Goatmill Road, Parc y Ddraig/Hely, Parc Busnes Triongl, Parc Diwydiannol Merthyr Tudful a thir yn Ffos y Fran ar gyfer defnydd B1, B2 neu B8, gwasanaethau masnachol ategol neu dderbyniol priodol tan 2021. |
| **Ffyrdd Iach o Fyw**<br>Heini a chynnal pwysau iach. | Diogelu 100% o ofod agored 'sydd ei angen' o gynigion datblygu sy'n cynnig eu colled. Mesur Ha. yn cael ei amddiffyn bob blwyddyn.<br><br>Tystiolaeth o 'Angen' drwy'r 'asesiad mannau Agored'.<br><br>Diogelu 100% o gyfleusterau cymunedol llewyrchu o gynigion datblygu sy'n cynnig eu colled. Rhif Mesur sy'n cael ei amddiffyn yn flynyddol. |
| **Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol**<br>Mwynhau iechyd a lles meddwl da. | Mesur: Nifer y cynigion datblygu ar gyfer datblygiadau sensitif a ganiateir yng ngorlifdir C1 a C2 oni bai ei fod yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i v). |
| **Hybu Annibyniaeth**<br>Gallu byw bywydau annibynnol a bodlon. | Gweler y mesur 'Tai'. |
| Cymunedau integredig a chydlynol diogel | Fod 100% o'r ceisiadau mawr (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol 1995) yn ymgorffori egwyddorion diogelu drwy ddylunio yn flynyddol. |
| **Tai**<br>Cymuned lle mae trigolion yn byw mewn tai o ansawdd da, addas a fforddiadwy. | Hwyluso'r ddarpariaeth net o 200 o unedau preswyl newydd yn nhref Merthyr Tudful yn flynyddol tan 2021.<br><br>Hwyluso'r ddarpariaeth net o 36 o unedau preswyl newydd yn ardal Treharris, Trelewis, Edwardsville a Mynwent y Crynwyr yn flynyddol tan 2021.<br><br>Hwyluso'r ddarpariaeth net o 16 o unedau preswyl newydd yn ardal Troedyrhiw, Aberfan, Bro Merthyr a Bedlinog yn flynyddol tan 2021.<br><br>Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir sydd wirioneddol ar gael ar gyfer datblygu tai.<br><br>Hwyluso darpariaeth net 23 o dai fforddiadwy yn flynyddol tan 2021. |
| **Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed** | Nid oes mesur a awgrymir. |

**MYNEGAI DOGFEN WE**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful | http://www.merthyr.gov.uk/English/EnvironmentAndPlanning/Planning/Documents/LDP%20AMR%202014.pdf |
| 2 | Drafft Adroddiad ACRF 2014 15 | http://www.merthyr.gov.uk/English/CouncilAndDemocracy/Performance/Documents/Draft%20Annual%20Report%20on%20Social%20Services%202014 2015.pdf |
| 3. | Cynllun Corfforaethol MTCBC 2013 17 (adolygwyd 2014 15) | http://www.merthyr.gov.uk/English/CouncilAndDemocracy/Performance/Documents/Corporate%20Plan%202013%20 %202017%20(updated%202014 15).pdf |
| 4 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted |
| 5 | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw 20140004 en.pdf |
| 6 | Cynllun yr Heddlu a Lleihau Troseddu 2015 2018 | http://pcclivewww.blob.core.windows.net/wordpress uploads/Print Ref 2053 SWPCC Police and Crime Reduction Plan English.pdf |
| 7 | Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl | http://gov.wales/docs/dhss/publications/121031tmhfinalen.pdf |
| 8 | Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau | http://gov.wales/dsjlg/publications/commmunitysafety/strategy/strategye.pdf?lang=en |
| 9 | Deddf Tai 2014 | http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/contents/enacted |
| 10 | Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan | http://gov.wales/dsjlg/publications/commmunitysafety/youthoffendingstrategy/strategye?lang=en |
| 11 | CCUHP Gwneud Pethau'n Iawn | www.uncrcletsgetitright.co.uk |
| 12 | Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru | http://gov.wales/docs/dhss/publications/130521olderpeoplesstrategyen.pdf |
| 13 | Cynllun Tair Blynedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf 2015 2018 | http://www.cwmtafuhb.wales.nhs.uk/opendoc/268389 |

**DATGANIADAU CAU**

Yn dilyn adlewyrchu dros 2 flynedd gyntaf y Cynllun Integredig Sengl ac wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr; mae Bwrdd Gwasanaeth Lleol Merthyr Tudful wedi defnyddio gwersi a ddysgwyd yn y gorffennol i lywio sut mae'n symud ymlaen i gyrraedd y nodau a'r heriau sy'n ei wynebu yn y dyfodol.

Drwy symleiddio'r SIP; mae'r LSB wedi ei gwneud yn haws i gael mynediad at wybodaeth yn ogystal â gwneud yr ardaloedd lle mae partneriaethau'n datblygu yn fwy eglur. Mae'r gostyngiad yn y nifer o feysydd canlyniad â blaenoriaeth yn cynnig mwy o gyfleoedd i aelodau'r LSB dderbyn diweddariadau ar faterion nad oedd yn cael eu dwyn ger eu bron gynt. Bydd hyn yn cefnogi'r LSB i sefydlu briff gwylio ehangach a datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bellach o weithgarwch partneriaeth/cydweithredu ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r adolygiad wedi arwain at newidiadau i'r mecanweithiau adrodd a ddefnyddir; bydd hyn yn gwneud data/gwybodaeth yn gliriach ar gyfer aelodau'r LSB, a thrwy hyn yn cefnogi penderfyniadau cyflymach, mwy gwybodus. Drwy newid ffocws a strwythur proses adrodd y LSB ei nod yw creu llwyfan gwrthrychol o ddealltwriaeth ar y cyd o berfformiad yn erbyn y canlyniadau a nodir yn yr SIP. Bydd hyn yn gatalydd ar gyfer trafod a herio sy'n canolbwyntio ar ffactorau critigol sy'n effeithio ar gyflawni'r SIP tra'n datblygu atebolrwydd ymhellach ar y cyd ar draws partneriaid a rhanddeiliaid y SIP sydd â diddordeb.

Drwy ddiweddaru ei arferion gwaith a sicrhau fod cyfathrebu effeithiol yn cael ei gynnal ar bob lefel, mae'n ceisio manteisio ar gyfleoedd i gydweithio ac integreiddio. Enghraifft ymarferol o hyn yw cytundeb yr LSB i'r cynnig o fabwysiadu dull i gyfuno'r gwaith sydd ei angen i gyflawni gofynion asesiad poblogaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a gofynion asesiad o les Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu un asesiad cyfunol ar gyfer rhanbarth Cwm Taf i ymdrin ag anghenion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth.

Wrth symud ymlaen, drwy fabwysiadu dull 'feinach' ar sut i adrodd ar y Cynllun; gall yr LSB ragweld a chynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y newidiadau angenrheidiol a fydd yn gorfod cael eu gwneud wrth iddo gwblhau'r pontio o LSB i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB); a gofynion Deddf Llesiantiant Cenedlaethau'r Dyfodol y bydd yn ofynnol i'r PSB ymateb iddynt. Drwy gyflwyno'r 'newid cam' hwn yn gynharach, bydd yn gallu canolbwyntio fwy ar y cyd ar y camau i baratoi asesiad lles ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a'r Cynllun Lles dilynol i ddiwallu'r angen a nodir pan ddaw'r amser.

Yn olaf, drwy symleiddio'r prosesau mae'r LSB yn eu cynnal, nid yn unig bydd hyn yn gwneud yr elfennau a arweinir gan broses yn fwy hydrin ond, yn bwysicach, bydd yn rhyddhau amser i ganolbwyntio mwy ar y prosiectau/gweithgareddau sy'n anelu at gyflawni effeithiau cadarnhaol ar y cymunedau ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Bydd yr effaith hwn i'w weld yn glir trwy baratoi astudiaethau achos a fydd yn cael eu cyhoeddi'n fwy eang wrth i ni symud ymlaen.